

*Adroddiad blynnyddol a  
datganiadau ariannol*

**2018/19**

# Adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol 2018/19

## Swyddogion a chynghorwyr proffesiynol

### Cyfarwyddwyr

#### Gareth Bullock

Cadeirydd

#### Giles Thorley

Prif Weithredwr

#### Huw Morgan

Uwch Gyfarwyddwr  
Annibynnol Anweithredol

#### Iraj Amiri

Cyfarwyddwr Anweithredol

### Carol Bell

Cyfarwyddwr Anweithredol

### Roger Jeynes

Cyfarwyddwr Anweithredol

### Margaret Llewellyn OBE

Cyfarwyddwr Anweithredol

### David Staziker

Prif Swyddog Ariannol  
(penodwyd 1 Ebrill 2018)

### Ysgrifennydd y Cwmni

Judi Oates

### Swyddfa gofrestredig

Uned J  
Pentref Busnes lâl  
Ffordd Ellice  
Wrecsam  
LL13 7YL

### Bancwyr


Barclays Bank Plc  
Blwch Post 69  
Heol-y-Frenhines  
Caerdydd

### Archwilwyr

Deloitte LLP  
5 Sgwâr Callaghan  
Caerdydd  
CF10 5BT

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>	Diwylliant risg	83
Cenhadaeth, Gweledigaeth, Gwerthoedd, Nodau	5	Goddef risg	84
Ein targedau 5 mlynedd	6	Prif risgiau	85
Datganiad y Cadeirydd	7	Model llinellau amddiffyn	95
Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol	9	Busnes cyfrifol	97
Uchafbwyntiau perfformiad	11	<b>Llywodraethu</b>	<b>103</b>
Ein blwyddyn	13	Adran llywodraethu	105
Model busnes	15	Adroddiad y Cyfarwyddwyr	106
Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi	17	Bywgraffiadau Cyfarwyddwyr	107
<b>Buddsodiadau a gwasanaethau eraill</b>	<b>19</b>	Datganiad Llywodraethu Corfforaethol	114
Dechrau busnes	21	Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg	116
Tyfu busnes	25	Adroddiad Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	121
Benthyciadau cyflym	37	Adroddiad y Pwyllgor Enwebu	123
Datblygu menter dechnegol	39	Pwyllgorau eraill	124
Prynu busnes	47	<b>Datganiadau ariannol</b>	<b>125</b>
Ariannu datblygiadau eiddo	51	Adroddiad yr archwilydd annibynnol	127
Angylion Buddsoddi Cymru	53	Datganiad incwm cyfunol	141
Dirnad Economi Cymru	55	Datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr	142
Cymorth i Brynu – Cymru	57	Datganiad cyfunol newidiadau mewn ecwiti	143
FW Capital	59	Mantolen gyfunol	144
<b>Cronfeydd, pobl a pherthnasau</b>	<b>63</b>	Datganiad llif arian cyfunol	146
Cronfeydd	65	Nodiadau i'r datganiadau ariannol cyfunol	147
Pobl	66	Mantolen y cwmni	203
Perthnasoedd	67	Datganiad cwmni newidiadau mewn ecwiti	204
Cydweithio â Llywodraeth Cymru	68	Nodiadau i ddatganiadau ariannol y cwmni	205
<b>Rheoli ariannol a risg</b>	<b>69</b>	Atodiad A i'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol	213
Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol	71		
Rheoli risg a rheolaeth fewnol	80		
Fframwaith rheoli risg	82		



# CYFLWYNIAD

Er mwyn i Gymru ffynnu, credwn fod angen i'n busnesau ffynnu. Pan fydd ein busnesau'n ffynnu, maen nhw'n creu mwy o swyddi o ansawdd gwell. Mae'r bobl y maen nhw'n eu cyflogi yn atgyfnerthu ein cymunedau. Pan fo busnesau Cymru yn gryf, mae Cymru'n gryf. Ein diben yw ei gwneud yn haws i fusnesau gael yr arian sydd ei angen arnynt i gychwyn, cryfhau a thyfu.




## Ein cenhadaeth

Datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y farchnad.



## Ein gweledigaeth

Bod yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth hirdymor a gwella economi ddeinamig a chystadleuol Cymru.



## Ein gwerthoedd

Agored | Cyfrifol | Partneriaeth




## Amcanion strategol

Dod yn sefydliad conglfaen ar gyfer darparu offerynnau ariannol y sector cyhoeddus, cefnogi busnesau micro i ganolig yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad o gyllid.

Cyflawni amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy gyflawni targedau perfformiad a darparu gwasanaethau cymorth a rheoli buddsoddiadau ar draws Llywodraeth Cymru gyfan.

Hyrwyddo datblygiad economaidd drwy fodel cyflenwi y gellir ei addasu sy'n ymateb i anghenion y farchnad tra'n darparu gwerth am arian ar gyfer arian cyhoeddus.

# Ein targedau 5 mlynedd



# Datganiad y Cadeirydd



**Gareth Bullock**  
Cadeirydd

**"Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad ar weithgareddau Banc Datblygu Cymru ar gyfer ei flwyddyn gyntaf lawn o weithredu. Mae ein Prif Weithredwr, Giles Thorley, a'i dîm wedi gwneud gwaith nodedig eto wrth adeiladu momentwm a chyflawni ein targedau gweithredu."**

Gwnaeth y Banc Datblygu fenthyca neu fuddsoddi £80m mewn dros 350 o gwmniâu yng Nghymru, gan ddenu £126m yn ychwanegol o gyfalaf sector preifat, a hynn'n arwain at greu neu ddiogelu 3,748 o swyddi. Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r Banc Datblygu, drwy ei arian ei hun a'r cyfalaf preifat a ysgogwyd gando, wedi buddsoddi £720m mewn mentrau yng Nghymru.

Dim ond 18 mis yn ôl fe wnaeth Llywodraeth Cymru waddoli'r Banc Datblygu gyda £233m o gyfalaf buddsoddi i'w ddefnyddio yn y sector mentrau micro i ganolig, calon economi Cymru.

**Yn y flwyddyn ariannol hon, cawsom £197m pellach, tystiolaeth ddiriaethol o ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i gefnogi busnesau bach yng Nghymru.**

Gyda'r gefnogaeth hon a'r cyfalaf sector preifat rydyn ni'n ei ddenu rydym yn disgwyl yn realistig i fuddsoddi cyfanswm o tua £1bn yn economi Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r cyfalaf a dderbyniwn yn ganlyniad trafodaethau a chynllunio manwl gydag adrannau perthnasol y Llywodraeth sy'n nodi meysydd o'r economi lle gall arian strategol, hirdymor oresgyn rhwystrau a

datgloï buddion sylweddol. Mae'r Banc Datblygu yn defnyddio'r cyfalaf hwennw i greu cronyfeydd wedi'u targedu at sectorau neu ranbarthau penodol, pob un â meini prawf buddsoddi wedi'u teilwra i gynhyrchu'r canlyniadau y cytunwyd arnynt gyda'r Llywodraeth ac wedi'u llywio gan y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Enghraift dda o'r dull hyn fu'r sector eiddo preswyl lle mae dwy gronfa bwrpasol yn llenwi'r gwagle a grëwyd gan y ffaith bod arian banc masnachol confensiynol wedi'i dynnu bron yn llwyr o gynlluniau adeiladu tai llai o faint. Mae'r rhain wedi galluogi adeiladwyr tai bach lleol i ffynnu, ac thai y mae mawr eu hangen i gael eu hadeiladu lle mae pobl am fyw. Mewn crona newydd byddwn hefyd yn mynd i'r afael â'r cyflenwad cyfyngedig o eiddo masnachol ac, mewn un arall, y safleoedd diffygol neu anodd hynny y mae angen rhywfaint o adfer arnynt cyn y gall datblygwyr masnachol eu hystyried ar gyfer prosiectau newydd. Mae hyn, gobethio, yn rhoi syniad o'r dull sectoraidd strategol y mae'r Banc Datblygu a'r Llywodraeth yn ei gymryd gyda'i gilydd, a'r cyfan yn cyd-fynd â blaenorïaethau economaidd y Llywodraeth.

Rwyf hefyd yn falch o nodi bod Dirnad Economi Cymru (EIW) wedi dechrau cyhoeddi

adroddiadau sydd, dros amser, yn anelu at greu corff o safbwytiau gwrthrychol ac eglurder yngylch sectorau penodol o economi Cymru. Gall y rhain yn eu tro lywio polisi a gweithredu. Mae EIW yn cyhoeddi adroddiadau ystadegol chwarterol ar economi Cymru ac mae eisoes wedi cyhoeddi dau adroddiad pwrpasol ar allforion ac ar glystyrau ecwiti.

### Mae'r Banc Datblygu yn ymdrechu'n gyson i ymestyn ei gyrhaeddiad i bob rhan o economi Cymru.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni gydnabod y gwaith rhagorol a wneir gan ein cydweithwyr yn Busnes Cymru wrth helpu entrepreneuriaid i lunio syniadau, i gefnogi cynlluniau twf ac i helpu mewn sefyllfaedd mwy heriol. Mae'r berthynas hon wedi arwain at gynnydd pum gwaith y maint yn yr atgyfeiriadau rhwng Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Adeg y lansiad, gwnaethom ymrwymiad y byddem yn ceisio manteisio ar ein profiad a'n record perfformiad i ddenu ffynonellau cyfalaf eraill i'w buddsoddi yn economi Cymru. Yn ogystal â'r cyfalaf preifat o £126m sydd wedi'i fuddsoddi gyda'r Banc mewn trafodion unigol, ym mis Ionawr

llwyddwyd i sicrhau £10m o ecwiti sefydliadol o Gronfa Bensiwn Clwyd gan gwblhau'r arian oedd i'w godi i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru o £25m. Rydym yn ddiolchgar i Clwyd am rannu ein brwd frydedd am ein nodau. O'r dechreuad bychan ond arloesol hwn rydym yn edrych ymlaen at ddenu cryn dipyn yn fwy o arian gan fuddsoddwyr annibynnol eraill dros y blynnyddoedd nesaf.

Mae ein busnes gwasanaethau masnachol, FW Capital, yn parhau i fod yn llwyddiannus, gan fenthyg £28m i fusnesau ledled Gogledd Lloegr. At ei gilydd, mae FW Capital yn rheoli wyth cronfa gwerth £216m, sy'n ein galluogi i wella'r llifoedd economaidd rhwng Pwerdy'r Gogledd a Gogledd Cymru.

Rydym wedi treulio llawer o amser eleni yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid i baratoi ar gyfer unrhyw amhariad economaidd y gallai ymadawiad annisgwyl o'r UE ei wneud. Mae hyn, wrth gwrs, yn parhau ac mae canlyniadau posibl Brexit di-drefn ar sectorau diwydiant gwahanol yn niferus ac amrywiol. Rydym wedi nodi adnoddau ariannol, addasiadau polisi a newidiadau i'r broses a fydd yn ein galluogi i chwarae ein rhan i gefnogi'r economi yn y fath sefyllfa.

### Mae'n hanfodol bod y Banc Datblygu yn adeiladu sylfaen gallu ynghyd â'i adnoddau cyfalaf cynyddol fel y gallwn gynnal effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar gyfer y tymor hir.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn buddsoddi mewn pobl ac mewn prosesau, a bydd cost hyn yn cael ei dalu gan y gwarged a gynhyrchwn yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Mae gennym 201 aelod o staff bellach ac rydym yn gweithredu o bedair swyddfa sy'n darparu presenoldeb ledled y wlad yng Nghymru, gyda'n pencadlys yn Wrecsam, a swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llanelli a'r Drenewydd. Mae gennym hefyd rwydwaith bychan o swyddfeydd ar draws Gogledd Lloegr. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn agor swyddfa arall yng Ngogledd Orllewin Cymru gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn hygrych i bob rhan o'r wlad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn gyntaf hynod brysur a gwerth chweil. Bydd ein llwyddiant parhaus yn dibynnu ar ynhw ac ar y diwylliant o wasanaeth a phroffesiynoldeb y maen nhw'n ei greu.

**Gareth Bullock**  
Cadeirydd  
26 Mehefin 2019

# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol



**Giles Thorley**  
Prif Swyddog  
Gweithredol

**"Roedd y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2019 yn un a welodd dwf sylweddol yn y Banc Datblygu yng Nghymru. Roedd yr esblygiad hwn yn amlwg yn yr amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau rydym yn eu darparu, codi arian a thwf ein tîm cyflawni. Mae ein busnes wedi parhau i esblygu ac rydym wedi parhau i ganolbwytio ar ychwanegu gwerth i gwsmeriaid a rhanddeiliaid drwy ein cenhadaeth graidd."**



## Delivery

2018/19 oedd y flwyddyn weithredu lawn gyntaf i Fanc Datblygu Cymru ac un lle y parhawyd i gynyddu lefelau'r cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru. Pan fu i ni lansio ym mis Hydref 2017, ymrwymwyd i gynyddu lefelau buddsoddi i £80m y flwyddyn o fewn pum mlynedd. Rwy'n falch o ddweud bod cyfuniad o waith caled gan y tîm, cymorth gweithredol parhaus gan Lywodraeth Cymru, a rhaglen codi arian garlam wedi golygu ein bod wedi cyrraedd y ffigur hwnnw dair blynedd yn gynt na'r disgwyl, gan buddsoddi £80m yn ystod y flwyddyn. Buddsoddwyd £126m pellach o arian sector preifat yn ogystal â sicrhau buddsoddiad cyfan i £206m. Dylid nodi yr effeithir yn sylweddol ar y ffigur hwn gan gyfraddalid gan Creo Medical, y cwmni dyfeisiau meddygol o Gas-gwent, ym mis Gorffennaf 2018. Ceir rhagor o fanylion am berfformiad buddsoddi a sylwebaeth am gyflwr y farchnad yn adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi ar dudalen 17.



## Tyfu

Mae codi arian wedi'i gyflawni yn gynt na'r disgwyl gyda nifer o lansiadau cynyrch newydd yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mai lansiwyd Angylion Buddsoddi Cymru, ein rhwydwaith angylion buddsoddi newydd, ynghyd â Chronfa Cyd-Fuddsoddi Angylion Cymru. Bydd y rhwydwaith a'r Gronfa yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso buddsoddiad cyffredin gan angylion, a ystyrir yn gyffredinol fel ffactor olyn u tyngedfennol wrth ysgogi gallu i fuddsoddi. Ym mis Mehefin cyhoeddodd Dirnad Economi Cymru, sef cydweithrediad ymchwil gydag Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ei hadroddiad ystadegol chwarterol cyntaf ac ers hynny, mae wedi cyhoeddi dwy astudiaeth bwrpasol ar allforion o Gymru a chlystyrau ecwiti.

Cyrhaeddwyd carreg filltir fawr ym mis Medi pan oeddem yn falch iawn o gyhoeddi buddsoddiad o £10m yng Nghronfa Olyniaeth Rheolaeth Cymru gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Mae'r arian hwn o bwys strategol sylweddol ar gyfer y dyfodol ac roedd yn ymrwymiad allweddol yn ein cynllun busnes cyntaf. Mae hyn yn nodi'r buddsoddiad ecwiti sefydliadol cyntaf yn un o'n cronfeydd a daw'r arallgyfeirio hwn ar adeg pan fo Cymru'n wynebu colli cronfeydd strwythurol yr UE.

Yn olaf, ar ddiwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd £121m o arian newydd, gan gynnwys Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru gwerth £50m, Cronfa Eiddo Masnachol Cymru gwerth £55m a £16m ar gyfer Cronfa Micro Fenthyciad Cymru.



## Twf sefydliadol

Pan agorwyd ein pencadlys newydd yn Wrecsam ym mis Medi, siaradais am bwysigrwydd ein hymagwedd wyneb yn wyneb wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae hyn yn greiddiol i'n model cyflenwi a bydd yn parhau wrth i ni wella'r hyn rydyn ni'n ei gynnig. Mae adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn parhau i bwysleisio cymaint y maen nhw'n gwerthfawrogi gweithio'n uniongyrchol gydag unigolyn penodol sy'n cymryd yr amser i ddeall eu busnes. Credaf nad oes dim a all gymryd lle cael eich trwytho mewn cymunedau lleol.

Er mwyn i'r dull hwn fod yn gynaliadwy mae'n dilyn ei bod yn hanfodol i ni allu reciwtio a chadw'r dalent orau ledled Cymru. Gyda marchnad lafur gref bu hon yn thema gyson drwy'r flwyddyn gyda chystadleuaeth am ymgeiswyr ar y lefel uchaf a welwyd gennym ers tro. Tyfodd nifer y bobl ar draws y busnes o 172 i 201 a chafwyd 32 o symudiadau mewnol sy'n dangos ein bod yn ddeniadol fel cyflogwr i'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu eu gyrra. Rhagwelir twf a chyfleoedd pellach yn ystod y flwyddyn i ddod.



## Buddsoddi yn y dyfodol

Gwnaeth Banc Datblygu Cymru ddiffyg o £10.1m yn 18/19 o'i gymharu â gwarged o £4.5m yn 17/18. Er y gallai hyn ymddangos yn siomedig, mae'n cael ei achosi'n fwy gan newidiadau i reolau cyfrifyddu sy'n mynnu bod newidiadau tymor byr mewn gwerthoedd buddsoddiadau yn cael eu hadlewyrchu yn ein datganiad incwm. Rydym yn fuddsoddwr cyfalaf amyneddgar ac fel y cyfryw, cynhelir y buddsoddiadau hyn am gyfnodau hir. Dros gyfnod y buddsoddiad, bydd y gwerthoedd hyn yn mynd i fyny ac i lawr yn unol â pherfformiad y buddsoddiad. Y prif wahaniaeth eleni o'i gymharu â'r llynedd yw colled fawr yng ngwerth teg ein buddsoddiad yng Nghronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'r rheolau cyfrifyddu sy'n ymwneud â chofnodi perfformiad ein busnes yn gymhleth ac rydym wedi cyflwyno dadansoddiad tryloyw o'r perfformiad hwn yn adroddiad y Prif Swyddog Ariannol, lle eglurir hefyd pam nad yw'r diffyg hwn yn effeithio ar ein hyfywedd tymor hwy. Gweler tudalen 71.



**Giles Thorley**

Prif Swyddog Gweithredol  
26 Mehefin 2019

## Uchafbwyntiau perfformiad

### Cyflawni

Buddsoddwyd  
**£80m**

Cyfanswm buddsoddiad o  
**£206m**

**3,745**  
o swyddi

### Tyfu

**£197m**  
o arian newydd

### Twf sefydliadol

**201**  
o bobl yn cael eu cyflogi

**55**

o reciwtiaid newydd a 32 o symudiadau mewnol

# Uchafbwyntiau perfformiad

## Buddsoddiadau Cymru



Hwyluswyd buddsoddiad o **£3.2m**

## Sylfaen Buddsoddwyr

17/18

Mae sylfaen buddsoddwyr wedi tyfu 65% o 90 i dros 150

18/19

+65%

## FW Capital

FWCapital 



**£28m**

wedi'i fuddsoddi

**99**

o fuddsoddiadau

**£55m**

o fuddsoddiad sector preifat

# Ein blwyddyn



## Lansio Rhwydwaith Angel gyda chronfa cyd-fuddsoddi newydd (Mai)

Lansio Angylion Buddsoddi Cymru ochr yn ochr â'r Gronfa Cyd-fuddsoddi Angylion Cymru gwerth £8m. Mae'r model newydd yn blaenoriaethu recriwtio angylion busnes ac yn cynyddu'r ffynonellau cyfalaf sydd ar gael ac yn cynnig platfform buddsoddi ar-lein.

## Ken Skates, Gweinidog dros yr Economi yn agor pencadlys newydd (Medi)

Mae pencadlys newydd Banc Datblygu

Cymru yn cael ei agor yn Wrecsam gan Y Gweinidog dros yr Economi, Ken Skates. Mae dros 100 o arweinwyr busnes lleol yn bresennol yn yr agoriad.

2018

## Dirnad Economi Cymru, lansio partneriaethau ymchwil (Mehefin)

Mae Dirnad Economi Cymru, partneriaeth ymchwil gydag Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi ei hadroddiad ystadegol chwarterol cyntaf ac yn dilyn hyn gydag adroddiad yn edrych ar allforion Cymru.



## **FW Capital yn buddsoddi £10m mewn i fusnesau gogleddol (Ionawr)**

Mae FW Capital yn pasio carreg filltir £10m o gronfa fuddsoddi Pwerdy'r Gogledd mewn llai na blwyddyn ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu gan Fanc Busnes Prydain.

**2019**

## **Busnesau Gorllewin Cymru yn sicrhau'r buddsoddiad gorau erioed (Rhagfyr)**

Mae Gorllewin Cymru yn taro carreg filltir o ran buddsoddi o £21.3m mewn benthyciadau ac ecwiti, ddwywaith y lefelau buddsoddi o 2017 gyda 72 o fusnesau'n codi cyfalaf.

## **Cyhoeddi cronfeydd newydd Llywodraeth Cymru (Mawrth)**

Cyhoeddir arian newydd gwerth £121m i'w ddarparu gan Fanc Datblygu Cymru fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu busnesau o bob maint i ddatblygu a buddsoddi ar gyfer y dyfodol wrth iddynt lywio heriau Brexit.

# Model busnes



## Adnoddau

### Cronfeydd

Mae gennym £950m o gyfalaf ar gael i'w ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch datblygu busnes ac eiddo. Gweler tudalen 65.

### Pobl

Rydym yn cyflogi 201 o bobl mewn 9 lleoliad ar draws Grŵp Banc Datblygu Cymru. Mae ein tîm yn hanfodol er mwyn cyflawni'r dull wyneb yn wyneb y gwyddom y mae perchnogion busnesau bach yn ei werthfawrogi. Gweler tudalen 66.

### Perthnasoedd

Mae meithrin a datblygu perthynas â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn hollbwysig er mwyn deall y farchnad a diwallu ei hanghenion. Gweler tudalen 67.



## Prosesau

### Gweithgarwch buddsoddi:

Mae ein gweithgarwch buddsoddi yn cwmpasu gwasanaethau rheoli cronfeydd fel buddsoddi a chasglu ad-daliadau ynghyd â swyddogaethau cymorth fel cyllid, marchnata ac adnoddau dynol.

### Benthyciadau a buddsoddiadau busnes

### Gwasanaethau eraill:

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ein cangen ymchwil, rhwydwaith angylion busnes, gwasanaethau rheoli i Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth i Brynu – Cymru a'n busnes rheoli cronfa fasnachol, FW Capital.

EIW

AIW

HTB-W

**FW  
Capital**



## Effaith

Dychwelwyd neu ail-fuddsoddwyd cyfalaf

Swyddi

Buddsoddiad sector preifat

Tai wedi'u hadeiladu



Eiddo masnachol metr sgwâr wedi'i adeiladu

**Rydym yn creu gwerth ariannol a chymdeithasol hirdymor drwy ddefnyddio'r cyfalaf a godwn, y bobl yr ydym yn eu cyflogi a'n perthynas â rhanddeiliaid a'r gymuned fusnes. Rydym yn rheoli'r adnoddau hyn yn unol â'n gwerthoedd craidd sy'n llywio ein hymddygiad wrth gyflawni yn erbyn ein hamcanion ac tuag at gyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.**

Mae ein gweithgarwch buddsoddi a'n gwasanaethau cysylltiedig, o fudd i fusnesau unigol drwy ddarparu'r cyllid sydd ei angen arnynt, ac ar economi Cymru drwy annog busnesau i gychwyn a thyfu. Mae cymdeithas yng Nghymru yn elwa pan fydd y busnesau hynny yn creu nifer uwch o swyddi mewn cymunedau lleol. Mae trethdalwyr Cymru yn elwa pan gaiff enillion ar fuddsoddiad eu hailgylchu i gefnogi mwy o fusnes neu eu dychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.

Rydym yn mesur y gwerth hwn drwy fuddsoddiad uniongyrchol, arian y sector preifat wedi'i fuddsoddi ochr yn ochr â ni, creu swyddi a diogelu, tai wedi'u hadeiladu a safleoedd masnachol a ddatblygwyd. Rydym yn gweithio i ddeall a mesur ymhellach effeithiau cymdeithasol a macro-economaidd ein gweithgarwch.

Caiff perfformiad cronfa unigol ei fesur yn ôl cronfeydd a fuddsoddwyd a dychwelir cyfalaf drwy ad-daliadau benthyciadau neu fuddsodiadau ecwiti.



# Adroddiad y Cyfarwyddwr Buddsoddi



**Mike Owen**  
Cyfarwyddwr  
Buddsoddi'r Grŵp

**Roedd 2018/19 yn flwyddyn lwyddiannus ac yn un lle cafodd mwy o fusnesau o Gymru gymorth gan Fanc Datblygu Cymru. Rydym wedi parhau i ganolbwytio ar dri maes craidd; cynyddu lefelau buddsoddi, cynyddu nifer y busnesau rydym yn gweithio gyda nhw a gwellær profiad i gwsmeriaid a'r cymorth ehangach a roddwn i'n portffolio.**

## Perfformiad o ran buddsoddi

Y tu allan i'r rhifau pennawd mawr, mae nifer o feysydd yn haeddu sylw. Blaenorïaeth i'r tîm eleni ful'r ymgrych i gynyddu'r buddsoddiad yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, targed sy'n deillio o'n Cronfa fwyaf, sef Cronfa Fusnes Cymru (WBF) sy'n cael ei chefnogi gan gronfeydd Ewropeaidd. Cynyddodd cyfanswm y buddsoddiad yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o'n holl gronfeydd o £38.9m i 175 o fusnesau yn 17/18 i £47.3m i 242 o fusnesau, cynnydd o 21% ar y flwyddyn flaenorol.

Parhaodd y buddsoddiad ecwiti yn gyson gyda £23.7m yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau ledled Cymru. Yn nodedig ymhlið y rhain mae Vizolution, cwmni wedi'i leoli yn Abertawe lle bu'r Banc Datblygu yn fuddsoddwr ers 2012 ac sydd wedi parhau â'i lwybr twf trawiadol ac wedi denu buddsoddiad sylweddol gan y sefydliad gan Santander a Banc Brenhinol yr Alban yn ystod y flwyddyn. Mae Caerdydd bellach yn cael ei hystyried yn ardal ecwiti poblogaidd gyda 23 o gwmnïau yn elwa ar fuddsoddiad o £7.2m gan y Banc Datblygu drwy gydol y flwyddyn.

Mae Cymru'n dal i ddenu diddordeb gan fusnesau twf uchel ledled y DU, a gwnaethom ariannu 15 o drafodion mewn fuddsoddi

yn y flwyddyn gwerth £6.5m. Un enghraift yw'r Conversant Technologies, llwyfan cyfathrebu ar y cwmwl sy'n darparu technoleg gyfathrebu unedig a ddewisodd Cwmbrân fel cartref ar gyfer ei weithrediadau a disgwylir iddo greu 32 o swyddi. Roedd technoleg, yn arbennig buddsoddi cychwynnol, yn parhau'n fywiog gyda meddalwedd a busnesau ymchwil gwyddonol yn gwneud 20% o'r arian a fuddsoddwyd.

Datblygu eiddo fu'r sector wnaeth dyfu gyflymaf i ni yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, o ran codi arian ac o ran benthyca. Yn gyffredinol, buddsoddwyd £24m mewn trafodion eiddo gyda £20m o'r cyfanswm yn dod o gronfeydd eiddo arbenigol yn ystod y flwyddyn.

## Creu gwerth hirdymor

Rhan o'r hyn sy'n gwneud gweithio yn y Banc Datblygu Cymru yn werth chweil yw'r cyfle i gefnogi cwmnïau ar gyfer y tymor hir. Yn 2018/19, aeth ychydig yn llai na £20m o'n buddsoddiad i gwsmeriaid presennol, a mwy na'u hanner yn fuddsoddiad ecwiti.

Mae ein gallu i ddilyn ein buddsoddiad cychwynnol yn hanfodol ar gyfer busnesau technoleg, yn enwedig y rhai sy'n datblygu technolegau newydd megis Cloud IQ a W2 Global Data Solutions a gwblhaodd rowndiau ariannu yn ystod y flwyddyn.

Nid yw pob un o'n hymyriadau ar ffurf pigiadau chwistrellu arian parod fod bynnag. Neilltuir Swyddog Gweithredol Portffolio penodol ar gyfer pob un o'n buddsoddiadau, a bydd y rhain mewn sawl achos mewn cysylltiad bob mis. Rhan o'r rôl honno yw nodi lle y gall fod angen rhywfaint o gymorth ychwanegol ar fusnes, naill ai er mwyn ei dwf neu er mwyn wynebu'r heriau sy'n ei wynebu, a gall hynny ddod ar ffurf cyflwyniadau o'n rhwydwaith. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud 143 o gyflwyniadau cyfarwyddwyr anweithredol, cwmnïau cynghori ac arbenigwyr sector i'n cwsmeriaid, ac mae tua thraean o'r rhain wedi mynd ymlaen i ymgysylltu. O dan rai amgylchiadau, gallwn gyfrannu at gost yr ymrwymiadau hyn i gefnogi ein cwsmeriaid. Rydym hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn gyda siaradwyr gwadd arbenigol, gan roi cyfle i'n cwsmeriaid rwydweithio â'i gilydd.

## Profiad cwsmeriaid

Mae'r farchnad gyfan yn cymryd camau breision ymlaen o ran gwella profiad cwsmeriaid, gyda mwy o awtomeiddio a darparu gwasanaethau ar-lein. Yr her i'n busnes yw gweithredu digon o awtomeiddio i

sicrhau bod y buddsoddiad a'r berthynas barhaus mor llyfn â phosibl heb golli'r dull dynol wyneb yn wyneb mae'n cwsmeriaid yn ei werthfawrogi. Mae ailbeiriannu ein prosesau wedi arwain at welliant sylweddol yn yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau trafodyn gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn parhau i gyflawni gwerth am arian gyda rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer y blynnyddoedd i ddod.

## Edrych ymlaen

Mae Brexit yn parhau i beri ansicrwydd wrth i fusnesau benderfynu ble a phryd i fuddsoddi. Mae profiad diweddar wedi gweld rhai bargeinion yn aros neu'n syrthio i ffwrdd yn gyfan gwbl ac rydym yn disgwyl i'r patrwm hwn barhau'n 2020. Mae'r ansicrwydd hwn yn effeithio'n arbennig ar fusnesau sy'n ymwneud â mewnforio ac allforio sy'n pryderu am dariffau a chyfraddau cyfnewid, ac mae'r sector eiddo yn arbennig yn pryderu am y deunyddiau a'r gweithwyr medrus sydd ar gael.

Fodd bynnag, yn y sector eiddo mae Cymru yn parhau i berfformio'n well na'r rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU, o ran twf prisiau a nifer trafodion, ac ar hyn o bryd mae ganddi un o'r sectorau gorau o unrhyw ran o'r DU. Dengys mynegifau o

Savills, Nationwide a'r ONS fod pris tŷ ar gyfartaledd yng Nghymru wedi cynyddu o 4.4% dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd y DU o 2%.

Mae hefyd elfennau cadarnhaol posibl i Brexit fel busnesau'n lleoli rhan o'u cadwyni cyflenwi neu fusnes yng Nghymru ac rydym wedi bod yn rhan o nifer o drafodion o'r fath yma yn y Banc Datblygu. Ar adegau o ansicrwydd gallwn roi sicrwydd bod cyllid ar gael.

## Uchafbwyntiau perfformiad

### Perfformiad buddsoddi

**£47.1m**

wedi'i fuddsoddi yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd

**£23.7m**

Buddsoddiadau ecwiti gwerth

**15**

o drafodion mewnfuddsoddi gwerth £6.5m

### Creu gwerth hirdymor

**£20m**

o fuddsoddiadau i gwsmeriaid presennol





# **BUDDSODDIADAU A GWASANAETHAU ERAILL**

Rydym yn buddsoddi mewn busnesau ledled Cymru i'w helpu i ddechrau, cryfhau a thyfu. Dyma ddetholiad o'r busnesau rydym wedi gweithio gyda nhw eleni.

# Dechrau Busnes

Cyllid o £1,000 hyd at £5m i helpu busnesau Cymru i ddechrau a chefnogi eu blynnyddoedd cynnar.

"Rydym yn brawf bod cynllun busnes cadarn, pendartrwydd, gwaith caled, angerdd ac amynedd yn talu ar ei ganfed yn y diwedd, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'r ddua ohonom yn wirioneddol gredu yn ddo, ond ni fyddai wedi digwydd heb gymorth y Banc Datblygu."

**Quantum Coffee Roasters**



# Quantum Coffee Roasters

Mae Quantum Coffee Roasters yn cael ei redeg gan y pensaer Katia Fotiadis a'i phartner Dimitri Metsios a oedd eisoes wedi mwynhau gyrrfa rostio ffa coffi yng Ngwlad Groeg. Mae'r cwpl hefyd yn rhedeg siop goffi boblogaidd ar Stryd Bute ym Mae Caerdydd.

Mae'r busnes wedi defnyddio micro fenthyciad sydd wedi helpu'r busnes i ehangu eleni. Mae Quantum wedi lansio gwefan newydd sy'n eu galluogi i werthu amrywiaeth eang o ffa coffi ar-lein. Mae'r busnes hefyd yn tyfu ei farchnad gyfanwerthu lle bydd cwsmeriaid yn derbyn pecyn gwasanaeth llawn gan gynnwys prynu peiriannau, malwyr a ffa coffi yn ogystal â hyfforddiant barista.

Esboniodd Katia: "Rydym yn angerddol am y broses gyfan a'r daith mae'r ffa coffi yn ei chymryd. Os ydych chi'n dewis y ffa coffi gwyrdd gorau, mae'n hanfodol bod y broses rostio yn parchu gwaith caled

y ffermwyr - rydych chi eisiau i graffter pob ffa ddisgleirio. Gall rhostio ddinistrio'r blasau hynny cyn iddo hyd yn oed fynd yn agos at y bragu. Dyma lle rydym yn dod â chrefftwraith a gwyddoniaeth at ei gilydd.

**"Rydym wedi tyfu'r busnes llawer mewn llai na blwyddyn ac yn naturiol fe ddaethom yn ôl i'r Banc Datblygu pan oedd angen cyllid arnom i ehangu a sefydlu ochr gyfanwerthol y busnes."**

"Mae tyfu'n organig yn wych ond weithiau mae angen chwistrelliad o gyllid ac egni i gyrraedd y cam nesaf. Rydym yn brawf bod cynllun busnes cadarn, pendartrwydd, gwaith caled, angerdd ac amynedd yn talu ar ei ganfed yn y diwedd, ac mae hynny'n rhywbeth y mae'r ddau ohonom yn wirioneddol gredu ynddo. Ond ni fyddai wedi digwydd heb gymorth y Banc Datblygu."



**Katia Fotiadis**  
Quantum Coffee Roasters

Cyffid:	Micro Fenthyciad
Sector:	Bwyd
Diben:	Dechrau busnes
Lleoliad:	Caerdydd



## Sut gwnaethom ni helpu:

Mae micro fenthyciad wedi helpu caffi a thŷ rhostio coffi poblogaidd Quantum Coffee Roasters i lansio gwefan a siop ar-lein newydd.



# Farmers Arms

Prynnwyd y Dafarn Wledig boblogaidd o'r 18fed Ganrif yn Waen ger Llanelwy gan Elaine Molloy a Peter Maull ym mis Tachwedd 2017.

Gyda chefnogaeth Banc Barclays a micro fenthyciad gan Fanc Datblygu Cymru, mae'r partneriaid busnes wedi ailwampio traddodiad y Dafarn Gymreig.

Mae The Farmers Arms, yr ystyrir ei fod wrth wraidd cymuned y Waen, wedi cael ei adnewyddu mewn ffordd gydymdeimladol ac mae'r adeilad bellach yn cynnig gwely a brecwast ar ôl ychwanegu tair ystafell westeon 'boutique'.

**Dyweddodd Elaine: "Mae'r Farmers Arms wedi bod yn ganolbwyt i'r gymuned leol ers blynnyddoedd lawer. Rydym wedi canolbwytio ar gadw'r cymeriad a'r swyn y mae pobl leol ac ymwelwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr."**

"Mae cefnogaeth y Banc Datblygu a Barclays yn golygu y gallwn nawr agor ein drysau i'n cwsmeriaid cyntaf gan wybod y gallwn gynnig llety gwych, prydau blasus o ansawdd uchel gan ddefnyddio cynnrych lleol a chroeso Cymreig cynnes iawn."



**Elaine Molloy**

Farmers Arms

Cyllid:	Micro Fenthyciad
Sector:	Lletygarwch
Diben:	Dechrau Busnes
Lleoliad:	Llanelwy



## Sut gwnaethom ni helpu:

Ariannodd micro fenthyciad, ochr yn ochr â buddsoddiad gan Barclays, adnewyddu'r dafarn gymunedol hanesyddol hon yn Llanelwy.

# Larynx Entertainment

Cwmni cerddoriaeth ifanc yw Larynx Entertainment sy'n darparu gwasanaethau cynhyrchu fideo a chynhyrchu sioeau byw. O'i ganolfan yn Hwb Menter Wrecsam, mae hefyd yn hyrwyddo artistiaid cerddoriaeth ac yn rhedeg cynlluniau datblygu talent trwy ragleni addysgol.

Derbyniodd Larynx micro fenthyciad cychwynnol o £3,000 gan y Banc Datblygu i'w galluogi i brynu mwy o offer a helpu tuag at gostau cyflenwyr a marchnata.

Dechreuodd Larynx Entertainment fel cyfuniad o artistiaid hip-hop yng ngogledd Cymru o'r enw The Larynx, yn perfformio mewn gwyliau a lleoliadau cerddoriaeth fyw ledled y DU. Drwy weld bod bwlch yn y farchnad yng Nghymru i gefnogi talent newydd yn y genre hwnnw, fe ddechreuan

nhw ddod yn llwyfan amlgyfrwng i artistiaid eraill.

Dyweddodd y Cyd-gyfarwyddwr, Pete Rogers: "Nid yw Hip-hop yn genre sydd fel arfer yn gysylltiedig â Chymru. Mae digon o artistiaid dawnus yma, ond yn wahanol i ddinasoedd mwy yn y DU, nid yw'r adnoddau ar gael iddynt. Roeddem am helpu talent newydd i greu record, marchnata eu cerddoriaeth a ffilnio fideo yma yng Nghymru i gael eu cerddoriaeth allan yno.

**"Roeddem yn gwybod na fyddem yn gallu mynd at fanc traddodiadol gyda'n syniad ni, felly gwnaethom siarad â'r Banc Datblygu a oedd yn meddwl yn agored ac yn hyblyg pan nad oedd llwybrau a benthyciadau eraill."**



**Peter Rogers**  
Larynx Entertainment

<b>Cyllid:</b>	Micro Fenthyciad
<b>Sector:</b>	Cyfryngau
<b>Diben:</b>	Dechrau busnes
<b>Lleoliad:</b>	Wrecsam



## Sut gwnaethom ni helpu:

Defnyddiodd y cwmni newydd Larynx Entertainment fenthyciad o £3,000 i helpu prynu offer ar gyfer eu fideo cerddoriaeth a'u cwmni cynhyrchu sioe fyw.

# Tyfu busnes

Trwy ein buddsoddiad a'n cyd-fuddsoddi gydag eraill, rydym yn cryfhau busnesau Cymru ac yn eu helpu i gyflawni eu cynlluniau twf.

"Daethom yn ôl i'r Banc Datblygu am arian oherwydd eu bod yn dangos eu bod yn deall ein busnes mewn gwirionedd a dros y blynnyddoedd roeddem wedi meithrin perthynas anhygoel â nhw."

**Mazuma**



# Crwst

Wedi'i enwi fel y Busnes Newydd Gwledig Gorau yng Ngwobrau Busnesau Gwledig 2018, mae Crwst yn cael ei redeg gan gwpl lleol, Catrin ac Osian Jones.

Sefydlodd y ddau ficro-fecws gan wneud bara ffres, toesenni, cacennau a theisennau yn 2017 a blwyddyn yn ddiweddarach gwnaethant sicrhau benthyciad chwe ffigur i ehangu'r busnes ac agor caffi, deli a bwyty yng nghanol Aberteifi.

Gan gyflogi 30 o bobl leol, mae'r tîm yn rhannu gweledigaeth Catrin ac Osian o fwyd hyfryd a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae'r bwyty ar agor chwe diwrnod yr wythnos, yn cynnig brecwast a bwydlen gyda'r nos ac mae ganddo far trwyddedig bellach.

Dyweddodd Catrin: "Mae rhedeg ein busnes ein hunain yn freuddwyd sydd wedi dod yn wir ac ni fyddem ni lle'r ydym ni heddiw heb gefnogaeth y Banc Datblygu. Roedd y benthyciad a ddarparwyd ganddynt wedi ein galluogi i gymryd y cam twf nesaf a oedd yn hanfodol i ni gyflawni ein nod. Mae Crwst bellach wrth galon y gymuned leol yn gweithio gyda dros 40 o gyflenwyr lleol ac yn cynnig y gorau o gynnrych Cymreig a lleol."


**"Byddwn i'n argymhell bod unrhyw entrepreneur lleol sydd am ddechrau neu dyfu busnes yn cael sgwrs gyda'r Banc Datblygu. Mae eu cefnogaeth wedi bod yn wych ac mae'r tîm yn bleser i weithio gyda nhw."**



**Catrin Jones**

Crwst

<b>Cyllid:</b>	Benthyciad
<b>Sector:</b>	Manwerthu
<b>Diben:</b>	Tyfu busnes
<b>Lleoliad:</b>	Aberteifi




## Sut gwnaethom ni helpu:

Mae benthyciad chwe ffigur wedi helpu'r busnes hwn o Aberteifi i ehangu ac agor caffi, deli a bwyty sy'n gwasanaethu'r gymuned leol.

CYCLE  
MY BIKE  
HAPPY & STRONG  
SILENT  
WORLD



Let's  
MOMENT  
and the people stuck  
traffic on  
the gym to ride a  
STATIONARY BIKE



#### FOXY CARBON 29

SUPER FAST, AGGRESSIVE HANDLING &  
OUTSTANDING EFFICIENCY  
NO LIMITS - DISCOVER  
UNPARALLELED ENDURANCE  
WHEREVER YOU GO, HOW PRECISE  
AND EXPLOSIVE RIDING  
ONLY THE BEST, ICONIC DESIGN AND  
CUTTING-EDGE TECHNOLOGY



# Oneplanet Adventure

Trwy gyfrwng pecyn cyllid chwe ffigur gan Fanc Datblygu Cymru a HSBC llwyddodd Oneplanet Adventure, canolfan ymwelwyr coedwig yng Ngogledd Cymru, brynu'r safle oedd wedi ei brydlesu ganddo ers 13 blynedd.

Mae'r cyd-berchnogion Jim Gaffney ac Ian Owen wedi defnyddio'r arian i brynu'r ganolfan ymwelwyr a'r meysydd parcio a oedd gynt yn eiddo i Gomisiynwyr Eglwysi Lloegr. Bydd y pryniant yn galluogi'r busnes i ehangu a buddsoddi mewn llwybrau newydd a fydd yn denu hyd yn oed mwy o ymwelwyr i'r ganolfan a'r rhanbarth.

Mae Oneplanet Adventure, sydd yng nghanol y Goedwig 650 hectar Coed Llandegla, yn croesawu 150,000 o ymwelwyr bob blwyddyn i ddefnyddio ei 91km o lwybrau beicio mynydd, cerdded a rhedeg.

Dechreuodd Jim ac Ian Oneplanet Adventure yn 2005 i droi eu brwd frydedd dros feicio mynydd yn fusnes masnachol, gan gynnig rhentu beiciau, gweithdai a hyfforddiant ar y safle.

**Dyweddodd Jim: "Drwy brynu'r safle , rydym wedi sicrhau dyfodol y busnes ac mae gennym lawer mwy o reolaeth dros ein cynlluniau ehangu yn y dyfodol. Rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan ein Rheolwr Cydberthnasau HSBC yn y DU, Denise Gallagher, a Chris Hayward a arweiniodd y fargen ar ran Banc Datblygu Cymru. Roedd y ddau wedi deall ein busnes yn iawn ac wedi cynnig cymorth pwrpasol. Mae bod ar y Rhaglen Twf Cyflym (AGP) hefyd wedi'n helpu i ddod â phawb at ei gilydd i gwblhau'r pryniant."**

Mae Oneplanet Adventure yn fusnes aeddfed sydd ag enw da yn y diwydiant. Mae wedi helpu i roi Gogledd Cymru ar y map fel prifddinas awyr agored ac antur y DU ac mae galw mawr amdano.



**Jim Gaffney**  
Oneplanet Adventure

Cyllid:	Benthyciad
Sector:	Twristiaeth
Diben:	Tyfu busnes
Lleoliad:	Llandegla



## Sut gwnaethom ni helpu:

Caniataodd cyd-fuddsoddiad chwe ffigur gennym ni a HSBC i Oneplanet Adventure brynu eu prydles eiddo gan yr Eglwys Anglicanaidd.

# Ffwrnes Pizza

Agorodd gwneuthurwyr gwobrwyd y pitsa Napoli Ffwrnes fwyty ym Marchnad Dan Do Caerdydd gyda chymorth micro fenthyciad o £30,000 gan y Banc Datblygu yng Nghymru.

Cafodd Ffwrnes ei sefydlu gyntaf yn 2014, ac fe'i gwnaed o gariad dau ddyn at bitsa Napoli, gan gyfuno gwneud toes traddodiadol Eidalaidd a thomatos San Marzano gyda thopiau a chyflasynnau o ansawdd uchel o gynhyrchwyr lleol ledled Cymru.

Dechreuodd y ddu gyfaill, Ieuan Harry a Jeremy Phillips, o ardal Llanelli, eu taith pitsa gyda Smokey Pete, fan Piaggio tair olwyn a oedd yn cynwys popty pitsa, a aeth â nhw i bartion a digwyddiadau ledled Cymru. Ychydig yn ddiweddarach, cawsant fan mwy, gyda ffwrn pitsa hefyd, a gafodd y llysenw Sam Van Tân gan dynt.

Pleidleisiwyd pitsa'r cwmni fel y Pitsa Gorau yng Nghymru yn 2017 a'i gynnwys yng nghyfres Bois Y Pizza S4C wrth iddynt gystadlu ym Mhencampwriaethau Pitsa'r Byd yn Parma yn 2018.

**Esboniodd Jeremy:** "Mae ein brwd frydedd dros gynnyrch lleol gwych a blas traddodiadol yr Eidal yn golygu pitsas blasus iawn i bobl sy'n caru bwyd ar draws De Cymru. Mae Smokey Pete a Sam Van Tân allan ar y ffordd yn gwneud pitsas sy'n tynnu dŵr o'r dannedd a nawr gyda chymorth y Banc Datblygu, gallwn hefyd gynnig blas anhygoel o'r Eidal i bobl dda Caerdydd ym Marchnad Dan Do Caerdydd. Mae'n rysáit ar gyfer llwyddiant."

Ers hynny mae Ffwrnes wedi ennill 'y gorau yn y sioe' yng Ngŵyl Pizza Llundain 2019.



**Jeremy Phillips**

*Ffwrnes Pizza*

<b>Cyllid:</b>	Micro Fenthyciad
<b>Sector:</b>	Bwyd
<b>Diben:</b>	Tyfu busnes
<b>Lleoliad:</b>	Caerdydd



## Sut gwnaethom ni helpu:

Mae'r cwmni pitsa o arddull Napoli yn agor bwyty newydd ym Marchnad Dan Do Caerdydd diolch i fenthyciad o £30,000.








**Sophie Hughes  
a Lucy Cohen**  
*Mazuma*

<b>Cyllid:</b>	Benthyciad
<b>Sector:</b>	Cyfrifeg / Cyllid
<b>Diben:</b>	Tyfu busnes
<b>Lleoliad:</b>	Pen-y-bont ar Ogwr



## Sut gwnaethom ni helpu:

Mae benthyciad dilynol i'r cwmni portffolio Mazuma wedi ariannu gwaith adnewyddu swyddfeydd, gan ganiatáu iddynt gyflogi rhagor o staff.

# Mazuma

Wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae Mazuma yn gwmni cyfrifyddu a chadw cyfrifon ar-lein sy'n darparu ei wasanaethau i fusnesau micro a bach ledled y DU. Dechreuodd Sophie Hughes a Lucy Cohen y cwmni oherwydd eu bod yn teimlo bod rhywbeth pwysig iawn ar goll yn y diwydiant; y wedd bersonol.

Ar ôl defnyddio benthyciad gan y Banc Datblygu i brynu prydles eu swyddfeydd yn 2017, daeth y ddwy ferch entrepreneuriaidd yn ôl i ofyn am fenthyciad pellach o £190,000 i helpu gyda chostau adnewyddu.

Nawr gyda'r gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau, mae'r cwmni'n bwriadu cynnig ei wasanaethau

i fwy o gwsmeriaid ac i gyflogi staff ychwanegol.

Dyweddodd Lucy: "Mae gwasanaethau cadw llyfrau, cyfrifyddu a threth ar-lein yn bwysig iawn i fusnesau bach ledled y DU ac rydym wedi gweld galw cyson, cynyddol am ein cynyrrch. Mae gennym gynlluniau mawr i barhau i dyfu'r busnes ac mae'r benthyciad hwn wedi ein helpu i sicrhau ein dyfodol."

**Dyweddodd Sophie:**  
**"Daethom yn ôl i'r Banc Datblygu am arian oherwydd eu bod yn dangos eu bod yn deall ein busnes mewn gwirionedd a dros y blynnyddoedd roeddem wedi meithrin perthynas anhygoel â nhw."**





# A1 Eyewear

Mae'r optegydd lleol Huw Owens wedi cymryd yr awenau yn A1 Eyewear ar Charles Street, Wrecsam, gyda chymorth micro fenthyciad o £50,000 gan y Banc Datblygu i brynu'r busnes a chyngor gan Fusnes Cymru.

Sefydlwyd A1 Eyewear ym 1986, a oedd gynt yn eiddo i Clare Hodkinson ac mae'n un o optegwyr annibynnol mwyaf blaenllaw Wrecsam sy'n cynnig profion llygaid, sbectol, lensys cyffwrdd ac ategolion ynghyd â gwasanaeth trwsio a chynnal.

Fel y perchennog newydd, mae gan Huw gynlluniau bellach i ddatblygu ymhellach yr ystod o wasanaethau gofal llygaid sydd ar gael. Dywedodd: "Mae gan Eyewear enw da am gynnig gofal llygaid proffesiynol i'n cwsmeriaid ffyddlon.

"Mae gofal ataliol i'r llygaid mor bwysig, ond mae'n hawdd esgeuluso'ch llygaid oherwydd yn aml nid ydynt yn brifo pan fydd problem. Mae cael prawf llygaid rheolaidd yn archwiliad iechyd llygaid pwysig a fydd yn sylwi ar unrhyw arwyddion cynnar o

gyflyrau llygaid, y gellir trin llawer ohonynt os cânt eu canfod yn ddigon cynnar.

"Yn awr byddwn yn datblygu ein gwasanaethau gofal llygaid ymhellach a'r ystod o sbectol yr ydym yn eu darparu gan gynnwys lensys cyffwrdd, sbectol a sbectol haul. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'n cleifion ac rwy'n ddiolchgar iawn i Fanc Datblygu Cymru a Busnes Cymru am eu cefnogaeth ardderchog. Gall y profiad o brynu busnes fod yn dreth ar eich nerfau ond roedd eu dull gweithredu trylwyr a llyfn yn golygu fy mod yn teimlo'n gwbl hyderus drwy gydol y pryniant."

**Ychwanegodd Clive Barnard,  
Rheolwr Cydberthnasau  
Busnes Cymru:** "Mae helpu Huw i gytuno ar strwythur busnes a datblygu cynllun busnes cadarn wedi bod yn engraifft wych o ba mor bwysig yw hi i entreprenoriaid gael cyngor busnes priodol. Mae gweithio mor agos â Banc Datblygu Cymru yn rhoi cyfle i berchnogion busnes elwa ar bwynt mynediad syml i ystod o gyfleoedd busnes a chyllid."



**Huw Owens**

*A1 Eyewear*

<b>Cyllid:</b>	Micro Fenthyciad
<b>Sector:</b>	Manwerthu
<b>Diben:</b>	Tyfu busnes
<b>Lleoliad:</b>	Wrecsam



 **Sut gwnaethom ni helpu:**

Mae'r optegydd o Wrecsam, Huw Owens, wedi prynu busnes presennol A1 Eyewear gyda chymorth micro fenthyciad o £50,000.

# OceanMatters

Wedi'i leoli ym Mhenmon ar Ynys Môn, mae OceanMatters yn magu ieir môr, pysgod sy'n bwydo oddi ar lau môr ac yn helpu i ddarparu amgylchedd tyfu glanach i eogiad sy'n cael eu ffermio.

Gyda chymorth benthyciad o £500,000 gan y datblygiad a chefnogaeth bellach gan HSBC, bydd y busnes yn arbed miliynau o bunnoedd y flwyddyn i ffermwyr eog wrth gefnogi ymdrechion i wella cynaliadwyedd.

Mae'r cwmni'n bwriadu dyblu ei gynhyrchiad ieir môr presennol i ateb y galw cynyddol ers iddynt ddechrau masnachu yn 2016.

Dyweddodd cyd-sylfaenydd a rheolwr gyfarwyddwr Werner Forster: "Rydym wedi cael llwyddiant mawr hyd yma, ond bydd y cyfalaf buddsoddi ychwanegol yn ein galluogi nid yn unig i barhau i wella systemau presennol ond hefyd i gefnogi gwaith adeiladu estynedig sy'n ein galluogi i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol ein cwsmeriaid.

---

**"Mae'r rownd ehangu nesaf, diolch i gefnogaeth Banc Datblygu Cymru, yn dod â ni i gyfnod o fâs critigol lle rydym yn mynd i gyflogi mwy o weithwyr a bod mewn sefyllfa llawer gwell i ateb y galw yn y farchnad."**

---

Mae problem llau môr yn un sydd wedi tyfu yn sgil tyfiant y diwydiant ffermio eogiad. Mae dwysedd uchel y pysgod mewn pennau yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer parasitiaid, ac wrth i'w gwirthwynebiad i blaladdwyr a ddefnyddir yn draddodiadol ddatblygu, mae'r cymhlethdodau o ddelio â llau môr wedi cynyddu.

Nawr mae OceanMatters yn ceisio darparu ateb naturiol i broblem llau môr. Mae defnyddwyr yn ei hoffi oherwydd nad yw'r pysgod yn cael eu trin â meddyginaethau diangen a thriniaethau cemegol, tra bod yn well gan yr amgylcheddwyr ymagwedd fwy naturiol tuag at les anifeiliaid. Mae wir yn rhywbeth y mae pawb wedi bod yn gefnogol iddo fel pe bai pawb ar eu hennill."





**Werner Foster**  
*OceanMatters*

<b>Cyllid:</b>	Benthyciad
<b>Sector:</b>	Dyframaethu morol
<b>Diben:</b>	Tyfu busnes
<b>Lleoliad:</b>	Penmon



### Sut gwnaethom ni helpu:

Mae benthyciad o £500,000 yn helpu OceanMatters i fagu leir Môr, a'i galluogi i gynnig gwasanaethau pla cynaliadwy i'r diwydiant eogiaid.

# Benthyciadau cyflym

**Gall busnesau sy'n masnachu ers dwy flynedd neu fwy gael benthyciadau o hyd at £10,000 gydag ychydig iawn o waith papur, a phenderfyniad ymhon dim ond dau ddiwrnod gwaith.**

Mae benthyciadau o hyd at £10,000 ar gael heb gynlluniau busnes ffurfiol a gwneir penderfyniad o fewn dau ddiwrnod gwaith yn unig.

Mae benthyciadau rhwng £10,000 a £25,000 ar gael o gyflwyno dim ond gwerth chwe mis o ddatganiadau banc a datganiad o asedau a rhwymedigaethau.

## Hardcore Shavers

Mae Ashley yn rhedeg Hardcore Shavers, siop farbwr yng Nghastell-nedd. Pan oedd gan Ashley gynlluniau i ehangu, gwnaeth gais am fenthyciad cyflym o £5,000 gan y Banc Datblygu. Roedd hyn yn ei alluogi i ailwampio'r salon, prynu offer newydd a gwella'r cyfleusterau ar gyfer ei gwsmeriaid.

Cyllid:	Micro Fenthyciad
Swm:	£5k
Sector:	Siop farbwr
Lleoliad:	Glyn-nedd

## The Williams Longboarding Co

Sefydlwyd Williams Longboarding Co yn 1984 ac mae bellach yn cael ei redeg gan Adam Williams, mab y sylfaenydd. Mae'r busnes yn gwneud byrddau syrffio â llaw fesul archebion. Galluogodd benthyciad cyflym o £3,000 gan y Banc Datblygu i Adam brynu offer newydd a fyddai'n gwella amserlenni cynhyrchu Adam.

Cyllid:	Micro Fenthyciad
Swm:	£3k
Sector:	Crefftwr bwrdd syrffio
Lleoliad:	Abertawe

## 1st Platinum Chauffeurs

Pan oedd angen cyllid ar fusnes chauffeur o Gaerdydd i brynu pedwerydd cerbyd i ychwanegu at ei fflyd, gwnaeth 1st Platinum Chauffeurs gais i'r Banc Datblygu am fenthyciad cyflym o £10,000.

Mae'r benthyciad wedi eu galluogi i brynu cerbyd newydd ac mae wedi eu harbed rhag gwario ar logi ceir o'r tu allan.

Cyllid:	Micro Fenthyciad
Swm:	£10k
Sector:	Gwasanaethau chauffeur
Lleoliad:	Caerdydd

## Uchafbwyntiau perfformiad

Buddsoddiad o

**£1m**  
mewn  
benthyciadau  
cyflym

Cefnogwyd

**93**  
o fusnesau

Cynnydd o

**43%**  
ar y flwyddyn  
flaenorol

Cynnydd mewn benthyciadau o  
**£10,000 → £25,000**



# Datblygu menter dechnegol

**Rydym yn gwneud  
buddsoddiadau  
cychwynnol, cam  
cynnar a dilynol i  
fusnesau technoleg  
sydd â photensial  
twf uchel.**

"Mae gallu denu  
buddsoddwyr eraill i  
gyd-fuddsoddi gyda'r  
Banc Datblygu yn  
hanfodol ac mae'r Banc  
Datblygu yn cydnabod  
pwysigrwydd buddsoddi  
ar y cyd gan fuddsoddwyr  
prefat soffistigedig sy'n  
dod â phrofiad sector  
sylweddol i'r cwmni."

**OpenGenius**

## LIGNIA Wood

Llwyddodd LIGNIA Wood Company, cynhyrchydd coed a addaswyd yn gyfreithiol a chynaliadwy, i sicrhau £7.5m i gefnogi adeiladu ei gyfleuster cynhyrchu masnachol cyntaf yn y Barri, Bro Morgannwg.

Roedd y swm yn cynnwys £2m gan Fanc Datblygu Cymru, £3m gan reolwr buddsoddi Downing LLP o Lundain, a £2.5m gan fuddsoddwr presennol.

Mae pren wedi'i addasu LIGNIA yn ddewis amgen i bren caled ac yn boblogaidd gyda'u cwsmeriaid yn y DU ac yn rhngwladol. Mae'r cynnrych yn cael ei gynhyrchu o goed pinwydd sy'n deillio o blanhigfeydd cyfreithiol a reolir yn gynaliadwy ac sydd wedi'u trwytho â resin i wneud pren wedi'i addasu sydd â golwg, gwydnwch, sefydlogrwydd ac ymrhedd Tân yn well na llawer o bren caled o werth uchel fel derw a thîc. Mae dull technoleg sy'n cael ei yrnu gan LIGNIA Wood Company wedi ei anelu at nid yn unig darparu pren hardd a pherfformiadol ar gyfer y

sectorau adeiladu a morol, ond mae hefyd wedi'i fwriadu i helpu i warchod stociau coedwigoedd trofannol gwerthfawr y blaned.


Bydd y buddsoddiad yn helpu i gefnogi datblygiad safle cynhyrchu cyntaf LIGNIA Wood ar raddfa fasnachol, sy'n gallu cynhyrchu hyd at 15,000 metr ciwbig bob blwyddyn.

**Dyweddodd Hans Ng, Prif Swyddog Gweithredol yn LIGNIA: "Gyda chyfngiad ar y cyflenwad o lawer o goed pren caled oherwydd rheoleiddio, mae hyn wedi agor y farchnad ar gyfer pren wedi'i addasu, ac felly yn amser gwych i ehangu ein busnes. Mae'r timau o Downing, Banc Datblygu Cymru a Woodford Investment Management wedi dangos arbenigedd mawr a hanes o fuddsoddi mewn sectorau cynaliadwyedd sydd wedi eu gwneud yn addas iawn i ni ac rydym yn llawn cyffro o fod yn gweithio gyda nhw."**



**Hans Ng**  
Lingia Wood Company

<b>Cyllid:</b>	Ecwiti
<b>Sector:</b>	Cynhyrchu cynaliadwy
<b>Diben:</b>	Menter technoleg
<b>Lleoliad:</b>	Y Barri



 **Sut gwnaethom  
ni helpu:**

Cynhyrchwyr pren addasedig cynaliadwy Lignia yn agor eu cyfleuster cynhyrchu masnachol cyntaf yn y Barri ar ôl buddsoddiad gwerth £7.5 miliwn o ecwiti.

# OpenGenius

Mae'r perfformiad yn adlewyrchu canlyniadau cyfunol 16 o gronfeydd buddsoddi a reolir gan fusnes y gwasanaethau, y buddsoddiad o £50m yng Nghronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru a chronfa benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu - Cymru.

Cyflwynir y dadansoddiad perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y busnesau cronfeydd yn Nhabl C.

**Tabl C:** Dadansoddiad o Ddatganiad Incwm Cronfeydd FY18 a FY19

	FY19	FY18	Sylwadau
	£m	£m	
Ffioedd a dderbyniwyd	3.5	3.0	Mae'r cynnydd yn cyfateb i faint cynyddol y ddyled a'r llyfr buddsoddi ecwiti.
Difidenda ac incwm llog	6.9	8.0	Mae swm FY19 wedi'i ostwng o £1m ar ôl addasiad o IFRS 9 nad yw'n arian parod gofynnol nad yw wedi'i adlewyrchu yn swm FY18. Mae gostyngiad cyfatebol o £1m wedi'i wneud i ddarpariaethau FY19 (gweler isod). Mae'r newid yn y contract ariannu HTB-W (gweler isod) yn golygu bod £0.6m o incwm cyfradd llog effeithiol wedi'i gynnwys yn nghyfansw, FY18 nad yw wedi'i gynnwys yn FY19. Felly byddai cymhariaeth tebyg am debyg yn codi o £7.4m yn FY18 i £7.9m yn FY19 sy'n cyd-fynd â'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y llyfr benthyciadau, wedi'i bennu drwy ostwng cyfraddau llog cyfartalog.
Rhyddhau grant ERDF	25.4	22.0	Mae'r cynnydd yn adlewyrchu lefelau uwch o fuddsoddiad, yn enwedig yn rhanbarthau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer Cronfa Fusnes Cymru (gweler y nodyn isod).
Realeiddio ecwiti	0.6	0.2	Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu saith ymadawiad llawn neu rannol yn FY19 ac un ymadawiad yn FY18 sy'n cynrychioli elw arian parod o arian parod cyfunol o 1.2 o weithiau yn FY19 (FY18 1.6 gwaith).
Trysorlys net	0.7	0.1	Cynnydd yn adlewyrchu twf mewn cronfeydd o dan reolaeth.
Colled heb ei Wireddu ar fenthyciadau HTB-W	0	-5.2	Yn dilyn newid cytundebol yn FY18, mae unrhyw enillion neu golledion bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y balans benthyciadau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru (gweler isod). Er bod y datganiadau ariannol yn dangos y cynnydd gwerth teg nas gwreddwyd o £26.8m (FY18 £3.9m) a'r ennilionl a wireddwyd o £1.4m (FY18 £0.5m) mae'r rhain yn cael eu gwrthbwys gan golled ar drosglwyddo'r enillion hyn i Weinidogion Cymru o £28.2m (FY18 £9.2m) gan arwain at sefyllfa net o ddim yn y datganiad incwm eleni.
<b>Cyfanswm y refeniw</b>	<b>37.1</b>	<b>28.6</b>	

	FY19	FY18	Sylwadau
	£m	£m	
Darpariaethau a wnaed	-2.3	-14.4	Gweler y sylw isod.
Colledion gwerth teg cronfa anghyfunol	-14.8	0	Mae'r golled hon yn cynrychioli'r symudiad yng ngwerth teg y buddsoddiad gwreiddiol o £50m i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru. Gweler y sylw isod.
Gwerth teg arall (colledion)	-14.96.3	0	Gweler y sylw isod.
Ffioedd rheoli'r gronfa a dalwyd	-17.0	-13.4	Cynydd yn adlewyrchiad o'r cronefydd ychwanegol a gaiff eu rheoli.
Costau eraill	-1.1	-0.9	Cyson o flwyddyn i flwyddyn.
<b>Cyfanswm y costau</b>	<b>50.1</b>	<b>-28.8</b>	
Diffyg	-13.0	-0.2	
Diffyg sy'n briodoladwy i gyfranddaliwr ecwiti	-13.4	-0.2	Mae hyn yn cynrychioli'r gyfran o diffyg y busnes cronefydd sy'n ddyledus i'r cyfranddaliwr, sef Gweinidogion Cymru.
Gwarged y gellir ei briodoli i fuddiant anrheolaethol	0.4	0.0	Mae hyn yn cynrychioli'r gyfran o warged y busnes cronefydd y gellir ei phriodoli i Gronfa Bensiwn Clwyd o ganlyniad i'w buddsoddiad ecwiti eleni i Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru (gweler y nodyn isod).

Mae Tabl C yn dangos fod y busnes cronefydd wedi cynhyrchu diffyg o £13m y flwyddyn eleni o'i gymharu â diffyg o £0.2m yn ystod y flwyddyn flaenorol. Y prif resymau am y newid mewn perfformiad yw effaith mabwysiadu IFRS 9 yn FY19 a bennwyd yn erbyn rhyddhau'r grant EDRF uwch a dim colledion HTB-W.

## Rhyddhau grant ERDF

Mae'r grant ERDF yn cael ei ryddhau fel refeniw i ddatganiad incwm y Grŵp dros gyfnod buddsoddi saith mlynedd Cronfa Fusnes Cymru yn unol â lefel y buddsoddiadau a wnaed mewn blwyddyn.

## Darpariaethau - effaith IFRS 9

Mae'r rhif FY19 yn adlewyrchu mabwysiadu IFRS 9 ac mae'n ymwneud yn unig ag amhariadau ar fenthyciadau. Dangosir yr amhariad ar ôl gostyngiad o tua £1m mewn perthynas â'r ffordd y cyflwynir incwm llog bellach (gweler y nodyn ar incwm difidend a llog uchod). Mae'r ffigur FY18 yn ymwneud â benthyciadau ac ecwiti gyda'r elfen ecwiti yn cyfateb i £9.4m. Felly byddai cymhariaeth wirioneddol yn gost o £3.3m yn FY19 o gymharu â £5.0m yn FY18.

O dan IFRS 9, mae darpariaethau colli yn seiliedig ar ddisgwyliadau ar gyfer colledion yn y dyfodol ac ni ellir eu cymharu â'r dull darparu blaenorol a oedd yn seiliedig ar fodel o golledion a gafwyd. Mae iechyd y portffolio ar gyfer y llyfr benthyciadau wedi gwella yn ystod y flwyddyn o 85% i 86% gan adlewyrchu effaith y twf yn y bargeinion eiddo risg isel. Hwn yw'r prif reswm dros y gostyngiad yn y darpariaethau a gynhelir.

## Colledion/enillion gwerth teg eraill - effaith IFRS 9

O dan IFRS 9 dangosir symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm. Yn FY18, dangoswyd enillion o £10.5m yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr wedi'i wrthbwys gan ddarpariaethau o £9.5m (gweler y nodyn uchod). Gwir gymhariaeth yw cost o £16.3m yn FY19 o'i gymharu ag ennill o £1m yn FY18. Y prif reswm am y symudiad hwn o £17.3m yw gostyngiad sylweddol yng ngwerth ein daliad yn Diurnal plc, yn dilyn cyhoeddi treial clinigol gwael yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i symud i IFRS 9, mae'r ffigur o FY19 hefyd yn cynnwys effaith prisio teg ar bob buddsoddiad ecwiti, nodiadau benthyciadau y gellir eu trosi a buddsoddiad y Banc Datblygu yng Nghronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru fel y nodir isod.

## Cronfa Buddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ("WLSIF")

O dan IFRS 9, mae'r buddsoddiad yn WLSIF bellach yn cael ei ddal yn y datganiadau ariannol werth teg lle, fel or' blaen, roedd yn cael ei ddal ar gost ac eithrio unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol. Wrth brisio'r buddsoddiad yn WLSIF yn FY19, er y bu ymadael mawr a arweiniodd at gyfanswm elw o £21.7m i'r partneriaid cyfyngedig, mae gwerth teg y portffolio sydd ar ôl wedi lleihau'n sylweddol gan arwain at golled o £14.8m yng ngwerth teg y buddsoddiad yn ystod FY19. Mae'r prisiad o'r buddsoddiad yn WSLIF yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif fel y datgelir yn Nodyn 3 a Nodyn 20 i'r datganiadau ariannol. Mae gwerth teg y buddsoddiad sy'n weddill yn y gronfa a'r ad-daliadau a dderbyniwyd hyd yn hyn yn £37m, sy'n cynrychioli colled o £13m o'i gymharu â'r buddsoddiad gwreiddiol (£1.8m o gynnydd FY18). Mae'r cynnydd o £1.8m FY18 wedi'i gynnwys yn y cyfanswm addasiadau trosiannol o £2.8m IFRS 9 mewn datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti. Y golled gwerth teg o £14.8m a gododd yn ystod FY19 yw'r gwahaniaeth rhwng y cynnydd agoriadol o £1.8m a'r diffyg cau o £13m a nodir uchod.

Dylid nodi bod symudiadau gwerth teg yn amcangyfrifon a wneir gan reolwyr buddsoddi profiadol o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol. Gall perfformiad cwmnïau buddsoddi cronfa wella a gwaethgu a bydd hyn yn effeithio ar yr amcangyfrifon hyn ac yn arwain at y ffaith nad yw buddsoddiadau'n gallu mynd i fyny ac i lawr mewn gwerth ac na fydd perfformiad hanesyddol o reidrwydd yn adlewyrchu perfformiad yn y dyfodol. Mae'r symudiad flwyddyn ar ôl blwyddyn a nodwyd uchod ar gyfer colledion/enillion Cronfeydd nad ydynt yn Gyfunol gwerth teg a cholledion/enillion gwerth teg eraill yn pwysleisio'r ffaith hon.

Un o'r canlyniadau pwysig sy'n deillio o gynnwys gwerth teg buddsoddiadau ecwiti yn y datganiad incwm cyfunol yw y bydd gwarged neu ddiffyg y Grŵp yn anochel yn llawer mwy cyfnewidiol flwyddyn ar ôl blwyddyn nag a welwyd yn hanesyddol yn dibynnu ar sut mae prisiadau'r asedau ecwiti hyn yn newid.

## Cronfa benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru ar gyfer prynwyr tai newydd

Yn ystod y flwyddyn FY18, cytunodd Gweinidogion Cymru i newid y cytundeb buddsoddi, sydd wedi newid y ffordd mae'r gronfa'n cael ei thrin o ran cyfrifyddu.

Yn flaenorol, roedd unrhyw newidiadau gwerth teg a wireddwyd neu nas gwireddwyd yn cael eu cydnabod yn natganiad incwm cyfunol y Grŵp. Yn y gorffennol, mae'r newidiadau hyn wedi bod yn enillion, gyda'r rhan fwyaf ohonynt heb eu gwireddu gan eu bod yn seiliedig ar gynnydd a ragwelir mewn prisiau tai yn hytrach na gwerthiant gwirioneddol tai.

Yn FY18, y golled a nodwyd yn natganiad incwm cyfunol y Grŵp oedd tua £5.2m, a oedd i bob pwrpas yn dileu'r holl enillion blaenorol a gydnabuwyd drwy'r datganiad incwm. O ganlyniad i'r newidiadau yn y ddull cyfrifyddu, mae unrhyw newidiadau gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y balans benthyciadau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, a dyna'r rheswm dros beidio â'i ddangos yn y datganiad incwm FY19.

O Dabl C, byddwch yn sylwi bod symudiadau sylweddol yng ngwerth teg yr asedau hyn sy'n sensitif iawn i newidiadau yn y mynegai prisiau tai a'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad. Rydym yn disgwyl y bydd yr enillion (neu'r colledion) hyn yn parhau i fod yn gyfnewidiol gan y gall newid bach yn y mynegai neu'r gyfradd ddisgownt achosi newid sylweddol i'r enillion neu'r golled o ran gwerth teg.

## Buddiant anrheolaethol

Y buddsoddiad £10m yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru gan Gronfa Bensiwn Clwyd (y mae £ 2.6m wedi'i dynnu i lawr ac wedi'i fuddsoddi gan y gronfa ar 31 Mawrth 2019) yw'r buddsoddiad ecwiti allanol cyntaf a wnaed i un o gronfeydd y Grŵp. Mae'n cyfateb i £10m o gyllid gan Weinidogion Cymru a £5m o gyllid gan y Grŵp ei hun. O dan reolau cyfrifyddu, ystyrir bod y gronfa hon yn cael ei rheoli gan y Grŵp ac felly mae'n rhaid ei chynnwys yn ddatganiadau ariannol y Grŵp. Gan nad yw'r Gronfa wedi'i hariannu'n llawn gan y Grŵp, mae rheolau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu'r gyfran o'r gronfa a briodoli i'r buddsoddwr allanol yn y fantolen gyfunol o dan y pennawd "Llog nad yw'n rheoli" o fewn yr adran ecwiti. Yn yr un modd, rydym hefyd yn datgelu'r elw y gellir ei briodoli i'r buddsoddwr allanol ar wahân yn y datganiad incwm cyfunol a'r datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr.



**David Staziker**

Prif Swyddog Ariannol  
26 June 2019

# Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru (y Grŵp) yn gweithredu model busnes cymharol syml sy'n darparu cynnyrch a gwasanaethau syml yn gyffredinol. Mae'n gweithredu o fewn marchnad gwasanaethau ariannol manwerthu a masnachol y DU. Fel cyllidwr bwlch i gefnogi dyheadau twf busnesau micro i ganolig yn bennaf a pherchenogion tai, mae'r Grŵp yn derbyn mwy o risg buddsoddi nag y mae darparwyr masnachol cyllid yn barod i'w oddef fel arfer.

Mae'r Grŵp wedi datblygu Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd sy'n nodi ymagwedd y Grŵp at y maes pwysig hwn o lywodraethu, cyfrifoldebau allweddol, y fframwaith rheoli risg a'r fframwaith sicrwydd y mae'r Bwrdd yn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cynllunio ac effeithiolrwydd gweithredol effeithiol o ran system rheolaeth fewnol y Grŵp.

Oherwydd natur ei weithgareddau nid yw Banc Datblygu Cymru plc wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) na'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, er bod tri o'i is-gwmniâu ag asedau yn cynrychioli llai na 2% o'r portffolio yn cael eu rheoleiddio gan yr FCA. Mae gweddill y Grŵp wedi'i eithrio rhag goruchwyliaeth reoleiddiol.


Fodd bynnag, mae Banc Datblygu Cymru plc yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau perthnasol eraill ac mae ganddo gyfres o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amgylchedd rheoleiddiol, gan gynnwys Troseddau Ariannol, Gwrth-Lwgrwobrwyd A Llygredigaeth, Gwrth-Dwyll, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ("GDPR") a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## Rôl y Bwrdd

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg. Rôl y Bwrdd yw gosod diwylliant y Grŵp, rhoi arweiniad entreprenaidd o fewn fframwaith o reolaeth ddarbodus ac effeithiol sy'n ei gwneud yn bosibl i asesu a rheoli risg. Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Archwilio a Risg wrth gyflawni'r rôl hon (gweler adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg am fanylion am ddiben a chyfrifoldebau'r Pwyllgor hwn mewn perthynas â rheoli risg a rheolaeth fewnol).

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cymysgedd priodol, ar y Bwrdd ac o fewn y Grŵp ehangach, o arbenigedd, gwybodaeth am y busnes, profiad ariannol, gwybodaeth dechnegol a safbwytiau allanol.

Mae'r Bwrdd yn nodi goddefiannau risg y Grŵp i nodi a diffinio'r mathau a'r lefelau o risgiau y mae'n barod i'w derbyn wrth geisio cyflawni amcanion strategol y Grŵp a sicrhau bod fframwaith priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn cynnal diwrnod strategaeth blynnyddol fel modd o nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg.



## Rôl y rheolwyr a'r staff

Mae'r Uwch Dîm Rheoli (SMT) yn gyfrifol am weithredu Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd y Grŵp ac am roi gwybod i'r Bwrdd am unrhyw newid perthnasol i debygolrwydd neu effaith prif risgiau ac am wreiddio arfer rheoli risg effeithiol ym mhob rhan o'r Grŵp. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau

ariannol ac anariannol risg ar berformiad y Grŵp yn cael eu cydnabod mewn ffordd ddarbodus ac amserol.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am nodi, rheoli a lliniaru risgiau o fewn eu maes gweithredu a chyfrifoldeb.

# Fframwaith rheoli risg

Mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn agored i ystod eang o risgiau wrth weithredu ei strategaeth ac wrth ymgymryd â'i fusnes o ddydd i ddydd. Mae diwylliant lle y derbynir risg mewn modd mesuredig, rhesymedig a hyddysg yn allweddol i'w berfformiad hyd yma ac i lwyddiant yn y dyfodol. At hynny, ni fesurir ei berfformiad yn erbyn paramedrau buddsoddi yn unig ac mae'n bwysig bod meysydd risg eraill gan gynnwys risgiau Gweithredol, Hylifedd, Cydymffurfio, Rhynghynebu, Enw Da a Strategol yn cael eu cydnabod a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r Grŵp yn rheoli'r prif risgiau sy'n ymwneud â'i weithgareddau yn weithredol drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- Asesiad Bwrdd blynnyddol o'r prif risgiau i gyflawni cynllun strategol y Grŵp yn llwyddiannus ac adolygiad o'r Polisi Rheoli Risg a Sicrwydd;
- Gweithredu fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio i nodi a lliniaru risg a'i gysoni â'r model "tair llinell amddiffyn" cydnabyddedig;
- Y defnydd o reolaethau lliniaru i leihau'r tebygorwydd ac effaith risgiau a nodwyd;
- Rheoli'r risg o fewn y goddefiannau risg fel y'u diffiniwyd gan y Bwrdd;
- Rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr cyflogedig newydd a hyfforddiant gorfodol ar gyfer cydweithwyr mewn meysydd allweddol fel Diogelu Data, Diogelwch Gwybodaeth a mynd i'r afael â gwyngalchu arian, llwgrwobrwyd a llygredigaet;
- Y canllawiau sydd ar gael i gydweithwyr drwy gyfres gynhwysfawr o bolisiau sydd ar gael ar fewnrwyd y Grŵp;
- Sgario'r gorwel er mwyn nodi newidiadau rheoliadol, deddfwriaethol a chyfrifyddu sydd ar y gweill a risgiau ymddangosol a fydd yn effeithio ar weithgareddau'r Grŵp;

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi effeithiol a chyson yn cael eu gwneud yn y Grŵp, mae'r Pwyllgor Buddsoddi yn gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl a adolygir yn rheolaidd. Y Pwyllgor Buddsoddi sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau buddsoddi mwy. Mae'r awdurdod wedi'i ddirprwyo i gyfarwyddwyr ac uwch aelodau eraill o staff mewn perthynas â phenderfyniadau buddsoddi eraill.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys Fframwaith Rheoli Risg (RMF) y Grŵp sy'n cefnogi dull y Bwrdd o nodi, asesu, monitro a rheoli'r risgiau y mae'r Grŵp yn eu hwynebu. Mae'r RMF:

- Yn dangos cysylltiad clir â strategaeth gyffredinol a chynllun busnes y Banc Datblygu;
- Yn eiddo i'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfio A Chyfreithiol ac wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Banc Datblygu Cymru plc. Mae unrhyw newidiadau i'r RMF yn cael eu hargymhell gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd er mwyn eu cymeradwyo;
- Yn amlinellu'r weledigaeth a'r amcanion rheoli risg, a'r dull o ddatblygu gallu'r Grŵp i reoli risg;
- Yn cael ei adolygu'n flynyddol ac, os oes angen, yn cael ei ystyried yn amlach er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhagolygon busnes, economaidd neu reoleiddiol; a

Mae trafodaeth ynghylch sut mae'r Grŵp yn ymdrin â'i risgiau mewn perthynas ag offerynnau ariannol wedi'i nodi yn Nodyn 20 o'r datganiadau ariannol.

Mae elfennau allweddol ein RMF yn cynnwys diwylliant risg, goddefgarwch risg a sicrwydd risg.

# Dwylliant risg

Mae diwylliant risg yn cefnogi Grŵp Banc Datblygu Cymru i gyflawni ei ddiben a'i amcanion a nodwyd o fewn risg dderbyniol. Mae'n cael ei adlewyrchu mewn ymddygiad a ddangoswyd gan y Bwrdd a chydweithwyr o ran ymwybyddiaeth o risg, cymryd risgiau a rheoli risg. Mae'r model "tair llinell o amddiffyniad" yn allweddol i sicrhau bod rheoli risg wedi'i wreiddio ar draws y Grŵp. Anogir cydweithwyr i gymryd perchenogaeth o'r broses o nodi a rheoli risg sy'n dod o fewn eu priod feysydd busnes.

Mae'r "cywair o'r brig" yn rhan hanfodol o'r diwylliant hwn. Mae'r Bwrdd a'r uwch reolwyr yn gweithredu ac yn disgwyl i gydweithwyr weithredu'n agored ac yn onest ac i uwchgyfeirio diffyg cydymffurfiaeth â pholisiau a gweithdrefnau. Caiff cydweithwyr eu hannog i adrodd am ddigwyddiadau risg a "damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd."

Yn erbyn y cefndir hwn mae'r Grŵp mewn sefyllfa dda i fodloni ei gyfrifoldebau risg o ran ymddygiad a sicrhau bod ei gwsmeriaid yn cael eu trin yn deg. Rheolir risg ymddygiad (y risg o ganlyniadau cwsmeriaid drwg) drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

1 Mae pob cydweithiwr yn ymgymryd â hyfforddiant gorfol sy'n berthnasol i'w rôl;

2 Mae polisi prisio Grŵp yn sicrhau dull gweithredu cyson o ran cyfraddau llog, ac mae manylion pellach am y rhain ar gael ar ein gwefan;

3 Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth allweddol o'r holl geisiadau am fenthyciad a gaiff eu gwerthuso gennym;

4 Mae gwahanu dyletswyddau yn sicrhau bod penderfyniadau benthyca bob amser yn cael eu hadolygu gan "ail bâr o lygaid";

5 Caiff niferoedd cwynion cwsmeriaid eu monitro'n agos ac ymatebir i bob cwyn gan uwch reolwyr;

6 Adolygiadau o ffeiliau gan y tîm Cydymffurfiaeth;

7 Adolygiad o ddyluniad ac effeithiolrwydd gweithredol ein hamgylchedd rheoli gan ein harchwilwyr mewnol annibynnol.

# Goddef risg

Mae'r Grŵp wedi nodi'r categoriâu risg menter canlynol sy'n berthnasol i'w strategaeth a'i weithrediadau ac yn ei adolygiad blynnyddol o drefniadau rheoli risg ym mis Ionawr 2019 priodolodd y Bwrdd oddefgarwch i bob categori fel a ganlyn:

Categori Risg Menter	Goddefiad Risg
Cydymffurfio	Dibwys
Rhyngwyneb	Isel
Mandad buddsoddi	Isel
Hylifedd	Dibwys
Gweithredol	Isel
Enw da	Isel
Strategol	Isel

Mae'r Bwrdd wedi pennu'r prif risgiau a ganlyn i gyflawni amcanion strategol y Grŵp.

 Risg is

 Dim newid i risg

 Mwy o risg

# Prif risgiau



Methiant i gyflawni Achos Busnes ac ymrwymiadau'r Grŵp a/neu aliniad/ymgysylltiad gwael â'n rhanddeiliad.

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Er mwyn cyflawni'r achos busnes mae angen perfformiad cryf parhaus "busnes fel arfer" ar yr un pryd â gwella effeithlonrwydd gweithredol a thyfu'r busnes i gyflawni ein targedau heriol.</p> <p>Byddai methu â chyflawni ymrwymiadau'r achos busnes yn achosi niwed i enw da.</p> <p><b>Maes risg: STRATEGOL</b></p> <p><b>Goddefiant risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Caiff y gwaith o gyflawni mentrau unigol ei reoli drwy benodi timau prosiect, dan arweiniad uwch reolwyr, gydag allbynnau wedi'u diffinio'n glir a monitro cynnydd yn agos.</p> <p>Mae tracio perfformiad busnes craidd y Grŵp yn cael ei gefnogi gan gyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli.</p> <p>Mae aelodau'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar berfformiad o ran busnes craidd a gwaith prosiect.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Agorodd ein prif swyddfa yn Wrecsam ar amserl ym mis Medi.</p> <p>Mae ein prosiect digidoleiddio uchelgeisiol yn mynd rhagddo'n foddaol a bydd yn gwella ein cysylltiad â chwsmeriaid a'n heffeithlonrwydd yn y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod.</p> <p>Rydym yn parhau i fonitro perfformiad y Grŵp o ddydd i ddydd yn ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweithgareddau busnes craidd yn llwyddiannus.</p>



Methu â chyflawni amcanion perfformiad y gronfa.

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae'r Grŵp wedi datblygu hanes cadarn o ddarparu arian yn llwyddiannus. Mae'n hanfodol i ddyfodol y Banc Datblygu bod y record hwn yn cael ei wella drwy barhau i gyflawni amcanion y gronfa.</p> <p><b>Maes risg: MaNDaD BUDDSODDIaDaU</b></p> <p><b>Goddefiant risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Mae pob cronfa a godwn yn cael ei datblygu mewn ymateb i faes penodol o fethiant y farchnad ac mae ganddo allbynnau targed wedi'u diffinio'n glir o'r cychwyn. Caiff y dangosyddion perfformiad allweddol hyn eu holrhain yn ofalus drwy wybodaeth reoli fanwl, gan alluogi datblygu strategaethau newydd neu gymryd camau adferol fel y bo'n briodol.</p> <p>Rydym yn codi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael drwy weithgarwch marchnata a datblygu busnes cydgysylltiedig ar draws nifer o sianelau.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Cymedrol</b></p>	<p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf llwyddodd y Banc Datblygu i gyrraedd neu ragori ar bob un o'i dargedau dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Cymru.</p> <p>Rydym yn codi ymwybyddiaeth o arlw y BDC drwy amrywiaeth o gyfryngau ac mae ein presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddatblygu a gwella ein cyswllt â'r gymuned micro fusnesau. Parhawn i ddatblygu ein rhwydwaith o gyfryngwyr, gan gynnwys practisau cyfrifyddiaeth a banciau, i nodi cyfleoedd ariannu.</p>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Methiant i sicrhau bod cyllid yn dal i fod ar gael o ran math/a digonedd.

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae parhad tymor hir Banc Datblygu Cymru yn dibynnu ar barodrwydd parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i'r Banc fuddsoddi.</p> <p>Mae ansicrwydd ynghylch yr arian fyddm ar gael gan lywodraeth y DU yn y dyfodol yn sgil y ddadl barhaus am Brexit.</p> <p><b>Maes risg: HYLIFEDD</b></p> <p><b>Goddefiant risg:</b> <b>Dibwys</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli:</b> <b>Sylwedol</b></p>	<p>Rydym yn defnyddio ein profiad ein hunain a phrofiad ein cwsmeriaid i nodi bylchau yn narpariaeth cyllid y sector preifat a gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion cronfa i fynd i'r afael â methiant y farchnad.</p> <p>Mae dangos tystiolaeth bod canlyniadau'r gronfa'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn allweddol i'n hygrededd fel sianel gyflenwi broffesiynol a llwyddiannus ar gyfer mentrau cymorth busnes Llywodraeth Cymru a busnes rheoli cronfeydd. Yn unol â hynny, rydym yn olrhain perfformiad a chyflawniad y dangosyddion perfformiad allweddol yn ofalus.</p> <p><b>Gradd ôl-reoli: Cymedrol</b></p>	<p>Yn y flwyddyn ariannol 2018/19, oherwydd cyllid gan Lywodraeth Cymru, bu'n bosib cyhoeddi £187m o arian ychwanegol i gefnogi dyheadau twf busnesau micro a chanolig Cymru.</p> <p>Yn ogystal, llwyddodd y Banc Datblygu i godi £10m mewn ecwiti sefydliadol o Gronfa Bensiwn Clwyd i'r Gronfa Olyniaeth Rheoli.</p> <p>Rydym yn parhau i ddatblygu cyfleoedd cronfa newydd lle rydym yn nodi bod methiant yn y farchnad fel rhan o'n strategaeth i ddarparu rhaglen dreigl o gyllid.</p>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Methiant i optimeiddio effeithiolrwydd gweithredol.

Risg a materion possibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae prosesau a systemau aneffeithlon neu aneffeithiol yn debygol o arwain at safonau gwasanaeth cwsmeriaid gwael a niwed i enw da hanesyddol a brand Grŵp. Bydd ymagwedd anghyson tuag at weithgarwch buddsoddi craidd yn effeithio ar berfformiad y Grŵp o ran cynnydd o ran mwy o amhariadau, adenillion cronyfeydd llai a phosibilrwydd cynyddol o dorri cytundebau ariannu.</p> <p><b>Maes risg: GWEITHREDOL</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Mae gennym set gynhwysfawr o weithdrefnau sydd ar gael i bob cyd-weithiwr ar ein mewnrwyd. Mae ein tîm Cydymffurfiaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ffeiliau er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu. Rhennir y canlyniadau ag uwch reolwyr ac mae gan y staff dargedau ansawdd wedi'u gweiddio yn eu hamcanion perfformiad blynnyddol.</p> <p>Sylweddolwn, er mwyn cyflawni ein targedau ymestynnol yn gost-effeithiol, ei bod yn rhaid i ni chwilio'n gyson am ffyrdd gwell o weithio.</p> <p>Mae gan ein Grŵp Llywio TGCh aelodau o bob rhan o'r busnes ac mae'n gyfrifol am gyflawni ein prosiect digidoleiddio yn llwyddiannus i wella profiad y cwsmer, hwyluso gweithio hyblyg gwell ac ysgogi effeithlonrwydd gweithredol.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Mae'r prosiect digidoleiddio yn mynd rhagddo'n foddaol mewn sawl agwedd.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Methu ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â'n cwsmeriaid

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Er mwyn parhau i fod yn elfen berthnasol ac effeithiol o'r dirwedd datblygu economaidd a chymorth busnes yng Nghymru, mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar ein cwsmeriaid er mwyn deall yr heriau sy'n eu hwynebu a'r ffordd orau o'u helpu i gyflawni eu hamcanion.</p> <p>Mae codi ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau a'n cynhyrchion er mwyn ysgogi galw yr un mor bwysig.</p> <p><b>Maes risg: RHYNGWYNNEB</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Rydym yn croesawu unrhyw adborth a phob atborth ar ein perfformiad. Rydym yn cynnal arolygon bodlonrwydd ac yn cynnal ciniawau rheolaidd ledled Cymru gyda'n cwsmeriaid a'r gymuned fusnes ehangach i ddeall yr hyn rydym yn ei wneud yn dda a ble mae angen i ni wella. Ystyrrir yr adborth hwn wrth gwmpasu ein rhaglen barhaus o welliannau gweithredol.</p> <p><b>Gradd ôl-reoli: Cymedrol</b></p>	<p>Cyhoeddir ein hamseroedd gweithredu targed ar gyfer penderfyniadau buddsoddi ar ein gwefan ac rydym yn olrhain ein perfformiad yn erbyn y rhain yn agos.</p> <p>Mae poblogrwydd ein proses ymgeisio symlach mewn perthynas â benthyciadau cyllid micro o hyd at £10,000 ar gyfer busnesau sefydledig yn parhau i dyfu</p> <p>Cyflwynwyd ein ffurflen gais ar-lein yn 2017. Yn FY19 derbynwyd 839 o geisiadau ar-lein am gyllid.</p>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae'r Grŵp a'i weithgareddau yn ddarostyngedig i amrywiaeth o gyfreithiau a rheoliadau. Mae enghreiftiau o'r rhain yn cynnwys; yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â chredyd defnyddwyr a gweithgareddau FW Capital, caffael cynhyrchion a gwasanaethau, cymorth gladwriaethol a chyfngiadau daearyddol o ran gweithgarwch buddsoddi a benthyca a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.</p> <p>Byddai torri'r Rheoliadau hyn yn niweidio brand ac enw da'r Grŵp a gallai arwain at ddirwyon neu sancsiynau eraill, gan gynnwys camau cyfreithiol, a allai amharu ar allu'r Grŵp i weithredu neu i godi arian pellach.</p> <p><b>Maes risg:</b> <b>CYDYMFFURFIO</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Dibwys</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Rydym yn cadw polisiau a gweithdrefnau manwl ar ein mewnrwyd ac mae ein tîm Cydymffurfiaeth mewnol yn ymgymryd â gweithgarwch samplu ffeiliau, a rhoddir gwybod am ganlyniadau'r gwaith hwn i uwch reolwyr.</p> <p>Mae ein harchwilwyr mewnol a drefnir yn allanol yn rhoi sicrwydd ar ddyluniad ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol ar draws y Grŵp ac yn argymhell meysydd i'w gwella i gyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Mae ein harchwilwyr allanol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y datblygiadau diweddaraf yn yr amgylchedd rheoleiddiol ac yn profi'r amgylchedd rheoli ac yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel rhan o'u hadroddiad blynnyddol.</p> <p>Mae'n ofynnol i gydweithwyr ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd ar gyfer nifer o feisydd rheoleiddio.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Rydym yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r dirwedd gyfreithiol a rheoliadol drwy ein systemau a'n gweithdrefnau mewnol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r staff wedi ymgymryd ag ystod o hyfforddiant gorfodol gan gynnwys mewn perthynas â Rhersonau Cymeradwy'r FCA, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Diogelwch Gwybodaeth, Gwrthsefyll Llwgrwobrwyd &amp; Llygredigaeth a Rheoli Risg.</p> <p>Rydym wedi cyflwyno datrysiaid hyfforddi newydd yn ddiweddar sy'n defnyddio dulliau awtomataidd i ddarparu hyfforddiant rheoleiddio a chydymffurfio parhaus, gan nodi'r canlyniadau mewn amser real.</p> <p>Rydym wedi rhoi cynlluniau gweithredu manwl ar waith i sicrhau bod ein treniadau cydymffurfio GDPR yn parhau i fod yn addas i'r diben.</p> <p>Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol wedi cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol ac wedi categorieddio prosesau rheoli risg a rheolaeth y rheolwyr fel Boddhaol ar y Cyfan, gyda rhai gwelliannau yn ofynnol.</p>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Bod yn agored i seiber-ymosodiad, toriadau diogelwch data a'r bygythiad o wadu gwasanaeth TG

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Rhaid i ystâd TG y Grŵp fod yn weithredol gadarn ac yn ddibynadwy, yn wydn i ymosodiad allanol ac, yn y sefyllfa waethaf, wedi'i ffurfweddu i oresgyn achosion o wadu ymosodiadau gwasanaeth mewn modd amserol.</p> <p>Mae'n bwysig bod defnyddwyr TG yn gweithredu'n unol ag arfer gorau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o doriadau diogelwch data a'r goblygiadau o ran enw da, gweithredu ac ariannol a allai godi fel arall.</p> <p><b>Maes risg: GWEITHREDOL</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Caiff ein ystâd TG ei gwarchod gan amrywiaeth o fesurau gan gynnwys waliau Tân, meddalwedd amgryptio a gwrth-firws, hidlo cynnwys y rhyngrwyd a chopïau wrth gefn. Ceisir cyngor arbenigol gan drydydd parti lle y bo'n briodol.</p> <p>Mae cymorth TG yn cael ei roi ar gontract allanol i ddarparwr trydydd parti ac mae'n destun Cytundebau Lefel Gwasanaeth y gellir eu gorfodi yn gytundebol.</p> <p>Manylir ar weithdrefnau TG yn ein Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Mae hyfforddiant diogelwch ar-lein blynnyddol yn orfodol ar draws y Grŵp. Ceir prosesau cadarn ar gyfer ffrwyno ac archwilio toriadau.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Mae ein trefniadau parhad busnes ac adfer yn sgil trychineb wedi'u hadolygu a'u profi yn ystod y flwyddyn. Mae'r ymarfer hwn wedi ein helpu i nodi lle y gellir gwella ein gwydnwch ymhellach ac mae cynllun i weithredu'r hyn a ddysgwyd wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae'r tîm TG wedi'i gryfhau i sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i gyflawni ein prosiect digidoleiddio.</p> <p>Adnewyddwyd ein hachrediad Ilywodraethu Cyber Essentials Plus yn llwyddiannus. Cynllun wedi'i gefnogi gan y Llywodraeth, sy'n cael cymorth gan y diwydiant, yw hwn sy'n galluogi sefydliadau i ddangos bod rhagofalon hanfodol i liniaru peryglon seiber-ymosodiadau cyffredin wedi'u cymryd a bod gwybodaeth cwsmeriaid a chyflenwyr yn cael ei diogelu.</p>



Rheoli newid diwylliannol a methiant i reciwtio a chadw cydweithwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol.

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae'n ofynnol i'r Grŵp weithredu system cyflog a gwobrwyd sy'n gyson â chyfngiadau tâl y sector cyhoeddus, er gwaethaf ymgymryd â gweithgareddau sy'n cydfynd â gweithgareddau'r sector preifat yn y sector gwasanaethau ariannol.</p> <p>Mae agor y brif swyddfa yn Wrecsam a'r twf yn nifer y bobl sy'n gweithio yno yn creu gweithlu sy'n fwy amrywiol o ran daearyddiaeth.</p> <p>Byddai'r anallu i reciwtio a chadw staff neu golli personél allweddol yn arwain at golli profiad a gwybodaeth gwerthfawr, gallai gael effaith andwyol ar wasanaeth cwsmeriaid a'n gallu i ddarparu cyllid yn effeithiol.</p> <p><b>Maes risg: GWEITHREDOL</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Mae cynllun olyniaeth wedi'i sefydlu ar gyfer swyddi allweddol. Mae'r Grŵp yn gweithredu proses arfarnu perfformiad i sicrhau y cydnabyddir perfformiad cryf a bod gweithwyr cyflogedig yn frwdfrydig ac yn gymwys yn eu rolau.</p> <p>Mae'r cylch yn annog datblygiad staff ac mae amrywiaeth o ddewisiadau hyfforddi ar gael.</p> <p>Caiff cyflogau eu meinchnodi yn erbyn normau'r farchnad a chaiff lefelau trosiant staff eu monitro gan uwch reolwyr a'u hadrodd i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Mae agoriad y brif swyddfa newydd yn Wrecsam wedi cael derbyniad da gan gydweithwyr ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r cynnydd a ragwelir yn y niferoedd sy'n gweithio yn y swyddfa.</p> <p>Mae dyluniad y Swyddfa yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithio hyblyg, sy'n cefnogi cydbwysedd gwaith:bywyd ac sydd, yn ein barn ni, yn offeryn allweddol ar gyfer reciwtio a chadw staff ac yn elfen bwysig o'n hymgyrch i wella o ran cost a chynhyrchiant.</p> <p>Mae reciwtio a chadw rhai rolau sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn parhau i fod yn heriol.</p> <p>Mae agweddau eraill ar ein pecyn cyflogaeth cyffredinol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pecyn ymsefydlu a hyfforddiant cynhwysfawr;</li> <li>• Adolygiadau perfformiad rheolaidd, arolygon staff a digwyddiadau lles a'n hadnodd ymgysylltu â chyd-Aelodau ar-lein "The Exchange";</li> <li>• Lefelau gwyliau blynnyddol cystadleuol a mynediad â thâl i fuddiannau eraill fel gofal iechyd preifat.</li> </ul>



Risg is



Dim newid i risg



Mwy o risg



Methiant i reoli cyfraniad darparwyr trydydd parti  
at gyflawni cynllun strategol BC yn llwyddiannus

Risg a materion posibl	Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion	Statws cyfredol
<p>Mae'n ofynnol i'r Grŵp gael cynhyrchion a gwasanaethau allanol yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac i fod yn fodlon bod cyflenwyr yn gweithredu yn unol â rheoliadau perthnasol eraill, megis GDPR. Gallai methu â gwneud hyn arwain at niwed i enw da, costau heb eu cyllidebu, neu'r angen i ailadrodd ymarferion caffael.</p> <p>Gallai diffyg gwybodaeth fewnol i bennu pa gynhyrchion a gwasanaethau sydd eu hangen yn briodol arwain at benodi darparwyr anaddas, rheoli prosiect annigonol a sicrhau nad yw buddiannau a ragwelir yn cael eu cyflawni.</p> <p><b>Maes risg: RHYNGWYNEB</b></p> <p><b>Archwaeth risg: Isel</b></p> <p><b>Sgôr cyn-rheoli: Uchel</b></p>	<p>Mae gan BDC staff caffael a gwasanaethau TG mewnol arbeigol, gyda mynediad at gyngor cyfreithiol ac ymgynghoriaeth allanol yn ôl y galw.</p> <p>Mae technegau rheoli prosiect PRINCE 2 a fframwaith arfer gorau ITIL yn cael eu rhoi ar waith fframwaith ac mae hyfforddiant addas ar gael i staff perthnasol.</p> <p><b>Sgôr ôl-reoli: Sylweddol</b></p>	<p>Achrediad Cyber Essentials Plus wedi'i adnewyddu'n llwyddiannus.</p> <p>Mae gweithdrefnau mewnol wedi'u diweddar ac mae adnoddau wedi'u cynyddu i sicrhau bod gofynion rheoliadol yn cael eu bodloni.</p> <p>Lle y bo'n briodol, penodir staff yn benodol i weithio gyda chontractwyr allanol i helpu i reoli prosiectau unigol ac i sicrhau bod gwybodaeth addas yn cael ei throsglwyddo ar gyfer hyfforddiant mewnol ar ôl cwblhau'r prosiect.</p> <p><b>Risg newydd</b></p>

## Profi sensitfrwydd

Mae gan y Banc Datblygu arian wrth gefn sy'n ddigon i dalu am lefelau buddsoddi a ragwelir i fusnesau yng Nghymru dros y 5 mlynedd nesaf ar sail cyfraddau buddsoddi blynnyddol cyfredol a'r twf a ragwelir mewn gweithgarwch buddsoddi. Mae digon o arian ar gael i dalu am yr ymrwymiadau a ragwelir mewn perthynas â chynllun Cymorth i Brynu Cymru tan 2021 ac mae trafodaethau'n parhau gyda'n cyfranddaliwr ynghylch ymestyn y cynllun ymhellach.

Mae arian y Banc Datblygu ar ffurf benthyciadau tymor hir ar gyfradd dim llog neu ecwiti cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru neu grant o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Yn unol â hynny, ystyria'r Bwrdd fod gan y Banc ddigon o gyfalaf a hylifedd i ateb y galw a osodir arno tra'n parhau i weithredu o fewn ei oddefiant risg.

## Fframwaith sicrwydd

Y Fframwaith Sicrwydd yw'r ffordd y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol. Ceir sicrwydd drwy ddefnyddio'r model "Tair Ilinell amddiffyn".

# Model Llinellau Amddiffyn

## Llinell gyntaf amddiffyn

Sicrwydd a geir uniongyrchol gan berchenogion risg bod y rheolaethau lliniaru y bwriedir iddynt reoli'r risgiau y maent yn gyfrifol amdanyst yn ddigonol a'u bod yn gweithio'n effeithiol. Gall hyn ddeillio o'r adolygiad chwarterol o'r gofrestr risg a datganiadau sicrwydd blynnyddol gan berchenogion risg.

## Ail linell amddiffyn

Sicrwydd yn deillio o'r adolygiad o weithrediad, addasrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau gan weithiwr cyflogedig Grŵp ar wahân i'r perchennog risg a'r tu allan i adran perchennog y risg. Gall yr adolygiadau hyn fod ar amryw o ffurfiau gan gynnwys; adolygu cyfres gynhwysfawr o wybodaeth reoli, adolygiadau risg, samplo ffeiliau, dadansoddi dwys ac edrych ar senarios yn rheolaidd.

## Trydedd linell amddiffyn

Sicrwydd yn deillio o ganfyddiadau adolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr mewnol annibynnol y Grŵp.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol cytunir ar gwmpas gwaith gyda'r archwilwyr mewnol, yn manylu ar y meysydd busnes i'w hadolygu ac amseriad a pharhad arfaethedig pob arolwg. Mae allbwn pob arolwg yn adroddiad i'r ARC sy'n manylu ar gwmpas y gwaith a wnaed, enghreifftiau lle mae'r rheolaethau yn gweithredu'n ddibynadwy a meysydd i'w gwella ac argymhellion i fynd i'r afael â nhw.

Caiff argymhellion sy'n deillio o adolygiadau archwilio mewnol eu graddio fel blaenoriaeth ymgynghorol, isel, canolig, uchel neu gritigol, sy'n dibynnu ar y risg ganfyddedig, ei thebygorwydd a'i heffaith. Mae'r rheolwyr yn darparu ymatebion i argymhellion a dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mae pob adolygiad yn gorffen gyda dosbarthiad risg isel, canolig, uchel neu gritigol yn dibynnu ar nifer a blaenoriaeth yr argymhellion sy'n codi.

Ceir sicrwydd annibynnol hefyd drwy adolygiad dilynol blynnyddol o'r argymhellion sy'n codi o adroddiadau archwilio mewnol blaenorol, er mwyn nodi'r cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion.

Mae ein harchwilwyr mewnol annibynnol wedi cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol ac wedi categoriiddio prosesau rheoli risg a rheolaeth y Banc fel rhai boddhaol.

Mae archwilwyr allanol y Grŵp yn darparu her gadarn o ran y dyfarniadau allweddol a wnaed wrth barato'i'r datganiadau ariannol ac yn adolygu'r systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg at ddibenion y datganiadau ariannol. Gwneir argymhellion i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a chânt eu holrhain mewn archwiliadau dilynol.

Caiff gweithgareddau Grŵp hefyd eu harchwilio neu eu profi gan gyrrff allanol annibynnol eraill, gan roi sicrwydd pellach fel rhan o'r trydydd llinell amddiffyn. Er enghraift, mae'r Grŵp yn cynnal achrediad Cyber Essentials Plus ac asesiad blynnyddol sy'n cael ei gynnal drwy brofion treiddio ar y safle o berimedr TG, ystâd gweinyddion, dyfeisiau cyfrifiadura a llwyfan e-bost.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd cyflawniad y Grŵp o Gronfa Busnes Cymru ei harchwilio gan y tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT), ac yn dilyn hynny, dywedodd EFAT, "Rydym yn falch o nodi bod adolygiad o'r gwaith gan y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (archwilio Awdurdod ar gyfer Cymru-ERDF) wedi arwain at adroddiad diamod ar y trefniadau rheoli a gweithredu cyffredinol sydd ar waith, heb i unrhyw argymhellion godi."

## Llinell amddiffyn gyntaf

Rheolaeth a pherchnogaeth risg o ddydd i ddydd


## Ail linell amddiffyn

Polisiau risg, methodolegau a goruchwyliaeth a her annibynnol

## Trydedd linell amddiffyn

Sicrwydd annibynnol

## Y Bwrdd



## Archwiliad Allanol

### Prif egwyddorion y model hwn, fel y dangosir yn y diagram uchod, yw:

- 1 Y Bwrdd sydd â'r atebolrwydd a'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg o fewn y Banc.
- 2 Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rolau a chyfrifoldebau penodol rheoli risg i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfio a Chyfreithiol.

- 3 Cefnogir y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfio a Chyfreithiol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn trwy adroddiadau uniongyrchol gan yr uwch dîm, gyda'r olaf hefyd yn cael ei gefnogi gan y swyddogaeth Risg A Chydymffurfiaeth wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfio a Chyfreithiol

**Neil Maguiness**

Cyfarwyddwr Risg, Cydymffurfio a Chyfreithiol

26 Mehefin 2019

# Busnes cyfrifol

Mae 'Cyfrifol' yn un o werthoedd brand craidd Banc Datblygu Cymru a bydd yn parhau i ddylanwadu ar ein model gweithredu wrth i ni fynd i'r afael â nifer o heriau byd-eang a amlinellir gan nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau byd-eang sy'n wynebu Cymru drwy sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael eu hymgorffori ym mhob rhan o Fanc Datblygu Cymru.

Mae busnes cyfrifol wedi bod wrth wraidd ein gweithgarwch erioed. Mae gennym ymrwymiad ar y lefel uchaf i fusnes cyfrifol a gweithredu ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), hyrwyddo mentrau a datblygu ein hanes busnes cyfrifol.

Rydym yn aelodau hirdymor o Busnes Yn Y Gymuned Cymru (BITC) ac yn defnyddio'u cymorth yn rhagweithiol i wella ein cymwysterau fel busnes cyfrifol. Rydym yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau a mentrau BITC. Ym mis Mawrth, fe wbaethom gynnal y diwrnod beirniadu ar gyfer Gwobrau Busnes Cyfrifol Cymru 2019, sy'n cydnabod y gwahaniaeth cadarnhaol y mae cwmnïau ledled Cymru yn ei wneud i'r heriau sy'n gyffredin i fusnesau a chymdeithas.

Mae'r Grŵp yn parhau i greu effaith ar draws ei chwe cholofn allweddol o fusnes cyfrifol: sicrhau effaith nid yn unig i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ond hefyd i gyflenwyr a gweithwyr cyflogedig, yn ogystal â chefnogi'r amgylchedd a'n cymuned.



Cynnal y diwrnod beirniadu ar gyfer Gwobrau Busnes Cyfrifol Cymru 2019.

Dathlu llwyddiant busnes Cymru mewn gwobrau Fast Growth 50.

Cyflwyno poteli dŵr y gellir eu haildefnyddio ar gyfer yr holl weithwyr.



## Ein cwsmeriaid

Un o'r prif ysgogwyr ar gyfer cael effaith ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn darparu cysylltiadau cyfrifol â chwsmeriaid i fusnesau drwy fuddsoddi cyllid cynaliadwy ac effeithiol, sy'n ategu'r sector preifat â llywodraethu a goruchwyliau cryf.

Ein buddsoddiadau yw'r catalydd i'n cwsmeriaid gyflawni eu cynlluniau busnes. Mae hyn yn galluogi ein cwsmeriaid i wneud penderfyniadau busnes mwy cynaliadwy, gan greu effeithiau cadarnhaol amrywiol ar Gymru a'i heonomi.

Drwy gydol y flwyddyn rydym yn gweithio gyda Busnes Cymru i helpu mwy o fusnesau yng Nghymru i wneud penderfyniadau busnesau mwy cynaliadwy drwy roi cymorth parhaus i'n cwsmeriaid.

Rydym wedi cynnal a bod yn aelodau o'r panel o arbenigwyr a ddaeth at ei gilydd i ddatblygu dull newydd o 'gefnogi menywod entreprenaidd yng Nghymru a lansiwyd gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ym mis Ionawr 2019.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant tuedd anymwybodol i'r holl staff.



## Ein hamgylchedd

Yr ydym yn gweithio i roi mesurau ar waith ledled ein swyddfeydd i leihau'r defnydd o ynni. Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi'i restru fel BREEAM – dda iawn o ran ei effeithlonrwydd ynni a gwastraff ac mae gan ein pencadlys yn Wrecsam radd C ar gyfer perfformiad ynni. Rydym hefyd yn defnyddio goleuadau LG3 a LG7 er mwyn goleuo ein swyddfeydd yn effeithlon.

Rydym wedi mynd drwy broses i ddileu papur o'i brosesau, gan bennu llinell sylfaen ar gyfer lleihau pryniannau papur i lai nag amcangyfrif o 6KG fesul gweithiwr cyflogedig. Er mwyn lleihau faint o blastig untro a ddefnyddiwn yn ein swyddfeydd, mae'r holl staff wedi cael poteli dŵr y gellir eu hailddefnyddio.



## Ein cymunedau

Mae ein buddsoddiadau yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu economaidd yn y rhanbarthau rydym yn gweithredu ynddynt, gan greu a diogelu swyddi ac ysgogi cadwyni cyflenwi lleol.

Mae ein menter elusen y flwyddyn wedi codi dros £30,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig.

Mae gennym raglen allgymorth cymunedol hir ac mae dau dîm wedi cymryd rhan yn nyddiau gweithredu BITC 2018. Gwirfoddolodd y tîm o Gaerdydd i wella'r maes chwarae yn ysgol Gymraeg Casnewydd yng Nghasnewydd, tra bu tîm Gorllewin Cymru yn gwneud rhywfaint o DIY a garddio yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch yng Nghastell-nedd.

Mae staff o'r Banc Datblygu wedi rhoi anrhegion Nadolig i dros 100 o blant ac oedolion ifanc trwy'r elusennau NSPCC a Barnardo's, yn ogystal â 45 o fasgedi bwyd Nadolig arall i deuluoedd mewn angen.





pask partnership

University of South Wales



CAPITAL LAW

Sponsoring

Chw  
Teg

Principality



Acorn | Leading recruitment specialists

EVERSHEDS SUTHERLAND

Net



## Ein rhanddeiliaid

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn un o werthoedd craidd y brand. Rhan o weithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau newid parhaol, gwirioneddol yw gwaith Dirnad Economi Cymru ar ddeall economi Cymru. Mae hyn wedi cynnwys adroddiadau chwarterol sy'n gweithredu fel monitor iechyd ar gyfer economi Cymru ac adroddiadau pwrrpasol sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â materion economaidd, busnes a chyllid sy'n benodol i Gymru.

Noddodd y Banc Datblygu y Wobr Busnes yn Womenspire 2018, gan ddangos cefnogaeth y Banc i entrepeneuriad benywaidd.

▲  
Margaret Llewellyn,  
aelod o'r Bwrdd  
yn cyflwyno  
i'r enillydd yn  
Womenspire 2018.

◀  
Cododd ein  
gweithwyr  
dros £30,000 i'r  
Ymddiriedolaeth  
Fibrosis Systig.

◀  
Anrhegion Nadolig  
a roddwyd  
drwy NSPCC a  
Barnardo's.

◀  
Gwirfoddolwyr  
Diwrnod  
Gweithredu 2018.

## **Ein cyflenwyr**

Mae dewis a rheoli cyflenwyr yn gyfrifol yn ein galluogi i feithrin cydberthnasau da a chefnogi ein cyflenwyr. Yng Nghymru, rydym wedi llwyddo i ddefnyddio porth caffael Llywodraeth Cymru Gwerthwchi Gymru drwy gydol y flwyddyn i ddod o hyd i gyflenwyr. Rydym hefyd wedi defnyddio contractau fframwaith y Llywodraeth i gefnogi'r prosesau tyfu a digidoleiddio sy'n cael eu cynnal gennym. Yn ystod y flwyddyn, daethom yn Llofnodwr Cymeradwy'r Cod Talu Prydlon, gan gefnogi cynaliadwyedd ariannol ein cyflenwyr, y mae rhai ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.



## **Ein gweithwyr cyflogedig**

Eleni, cafwyd dros 670 diwrnod o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff, sef cyfartaledd o 3.5 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant lles canlynol:

- Gweithdai rhagfarn anymwybodol i'r holl staff ar draws y sefydliad
- Cynllunio ar gyfer ymddeol
- Ymwybyddiaeth ariannol

Mae Banc Datblygu Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dull bwriadol o ddarparu amgylchedd gwaith iach a hapus. Mae hyn yn cefnogi gweithwyr cyflogedig i gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles personol yn y gwaith ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth ariannol, iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Rydym wedi datblygu calendr lles a oedd yn cyd-fyng â'n rhaglen cymorth i weithwyr cyflogedig, gofal iechyd BUPA ac ymgyrchoedd cenedlaethol. Roedd y rhain yn canolbwytio'n fisol ar hybu lles cyffredinol, gan atgoffa'r staff beth sydd ar gael a hyrwyddo'r diwrnod 'Amser i Siarad' ym mis Chwefror. Mae hyn yn ategu'r holl gymorth lles a gynigir ar hyn o bryd:

-  Cydbwysedd gwaith a bywyd
-  Gweithio'n hyblyg
-  Gorsafodd dŵr a photeli dŵr
-  Ffurio côr
-  Dawns elusennol
-  Gofal yn Gyntaf
-  Ioga wrth eich desg
-  Benthyciadau i weithwyr cyflogedig
-  Profion llygaid am ddim
-  Discounted gym membership
-  Cerdded i'r gwaith
-  Digwyddiadau beicio
-  Cynllun beicio i'r gwaith
-  Cynllun arian iechyd BUPA
-  BUPA select
-  Gweithdai cynllunio ar gyfer ymddeoliad

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn nhwf y cwmni gyda chynnydd o 14% yn nifer y staff yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â recriwtiaid allanol, rydym wedi buddsoddi yn natblygiad ein gweithwyr cyflogedig ac wedi dyrchafu 34 o weithwyr yn fewnol.

Fe wnaethom ymuno â gwasanaeth meinchnodi Cyflogwr FairPlay© Chwarae Teg er mwyn gwella recriwtio, dilyniant a chadw staff benywaid yng Ngrŵp Banc Datblygu Cymru, ac i wella brand ein cyflogwr. Fe wnaethom ennill gwobr efydd.





# LLYWODRAETHU

Rydym yn ymrwymedig i lywodraethu corfforaethol da, sy'n hyrwyddo buddiannau ein rhanddeiliaid, yn atgyfnerthu atebolrwydd ac yn hwyluso perfformiad sefydliadol.

# Adran Llywodraethu

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynnyddol, rydym yn esbonio sut mae'r fframwaith llywodraethu a rheoli risg yn cefnogi cyflawni amcanion y Grŵp. Yn benodol, rydym yn datgelu sut y rheolir y Cwmni er budd ei gyfranddaliwr a rhanddeiliaid eraill, rôl a chyfansoddiad y Bwrdd a'i wahanol bwylgorau a'r risgiau mae'r Banc

Datblygu yn agored iddynt a sut y cânt eu rheoli. Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol y Cwmni, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys, yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu model busnes y Grŵp, ei strategaeth a'i berfformiad.

Mae'r adran hon yn cynnwys neu'n cyfeirio at yr adroddiadau a'r datganiadau canlynol:

Adroddiad/Datganiad	Diben
<b>Adroddiad y Cyfarwyddwyr</b>	Yn nodi proffiliau aelodau'r Bwrdd a'u profiad ac yn cynnwys datgeliadau perfformiad statudol amrywiol sy'n ofynnol gan S417 Deddf Cwmnïau 2006. Mae hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr wrth barato'i'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol.
<b>Datganiad Llywodraethu Corfforaethol</b>	Yn datgelu fframwaith llywodraethu'r Cwmni, rôl a chyfrifoldeb Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac yn cynnwys adroddiadau blynnyddol tri Phwyllgor y Bwrdd – Enwebiadau, Archwilio a Risg a Chydubyddiaeth. Mae hefyd yn cofnodi presenoldeb y Bwrdd/Pwyllgorau a gwybodaeth weithredol arall.
<b>Datganiad Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol (wedi ei gynnwys yn yr adroddiad strategol)</b>	Mae'r adran hon yn rhoi manylion am y risgiau mae'r Banc Datblygu yn agored iddynt a sut y cânt eu lliniaru. Mae'n disgrifio rolau'r Bwrdd, y rheolwyr a'r staff, y fframwaith rheoli risg, diwylliant risg a goddefgarwch, y prif risgiau a'r fframwaith sicrwydd risg.

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynnyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol archwiliadig ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru plc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

- Mae'r wybodaeth ganlynol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 i'w gweld yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad blynnyddol; cyflawnir prif weithgarwch y Grŵp yng Nghymru a Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin Lloegr ac, felly, mae'r Grŵp yn agored i'r ansicrwydd a all fod ynglwm wrth broses BREXIT y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, gan fod y Grŵp o'r farn bod y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Ddatblygu Ewrop, Cronfa Bensiwn Clwyd a Banc Busnes Prydain yn ddiogel, ni ragwelir y bydd yr effaith ar y Grŵp yn debygol o gynyddu'n sylweddol nac yn faterol yn ystod y 12 mis nesaf.
- Mae manylion amcanion y Grŵp, datblygiadau yn y dyfodol a digwyddiadau arwyddocaol ers dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Strategol; a

- Rhoddir gwybodaeth am y defnydd o offerynnau ariannol gan y Grŵp yn nodyn 20 y datganiadau ariannol.

## Difidendau

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend (2018: £dim).

## Cyfarwyddwyr

Yn ystod y flwyddyn bu'r unigolion canlynol yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr. Nodir dyddiadau penodi a diswyddo Cyfarwyddwyr yn y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol sydd i'w weld ar dudalen 114.

Cyfarwyddwr	Swydd	Dyddiad y penodiad cychwynnol	Dyddiad dod i ben y penodiad cychwynnol	Dyddiad dod i rym yr ailbenodiad	Dyddiad dod i ben yr ailbenodiad
Gareth Bullock	Cadeirydd	Hydref 2015	Medi 2018	Hydref 2018	Medi 2021
Giles Thorley	Prif Swyddog Gweithredol	4 Ebrill 2016	amh	amh	amh
Huw Morgan	Uwch Gyfarwyddwr Anweithredol	Tach 2013	Tach 2016	Tach 2016	Tach 2019
Iraj Amiri	Cyfarwyddwr Anweithredol	Medi 2016	Awst 2019	amh	amh
Carol Bell	Cyfarwyddwr Anweithredol	Hydref 2014	Medi 2017	Hydref 2017	Medi 2020
Roger Jeynes	Cyfarwyddwr Anweithredol	Tach 2016	Hydref 2019	amh	amh
Margaret Llewellyn	Cyfarwyddwr Anweithredol	Medi 2012	Awst 2015	Medi 2018	Awst 2021
David Staziker	Prif Swyddog Ariannol	1 Ebrill 2018	amh	amh	amh

# Bywgraffiadau Cyfarwyddwyr



**Gareth Bullock**  
Cadeirydd

Yn ogystal â bod yn gadeirydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru, mae Gareth ar hyn o bryd yn dal nifer o swyddi cyfarwyddwr anweithredol ac uwch rolau ymgynghorol.

Mae gan Gareth dros 40 mlynedd o brofiad yn y diwydiant gwasanaethau ariannol. Ymddeolodd yn 2010 o Fwrdd Standard Chartered plc lle bu'n gyfrifol am Afrika, y Dwyrrain Canol, Ewrop a'r Amerig yn ogystal â chadeirio Rheoli Risg Ac Asedau Arbennig.

Mae ganddo brofiad gweithredol a rhyngwladol eang, ac yntau wedi bod yn Bennaeth Bancio Corfforaethol yn Hong

Kong, Prif Weithredwr Afrika, yn brif swyddog gwybodaeth y Grŵp ac yn Bennaeth Strategaeth. Mae ganddo hefyd brofiad Bwrdd diwydiannol a manwerthu sylweddol yn y DU a Tsieina.

Mae hefyd wedi dal nifer o swyddi bwrdd, ymhlið eraill, Tesco PLC, Tesco Personal Financial Group Ltd, Spirax-Sarco Engineering PLC, Fleming Family & Partners Ltd, British Bankers' Association a Global Market Group Ltd (Tsieina). Roedd hefyd yn Ymddiriedolwr y Cyngor Prydeinig o 2012 i 2018. Ar hyn o bryd mae'n Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol Informa PLC.



**Giles Thorley**  
Prif Weithredwr

Cyn ymuno â Banc Datblygu Cymru, roedd Giles yn bartner yng nghwmni ecwiti preifat TDR Capital LLP yn canolbwytio ar weithgareddau dechrau bargeinion. Cyn hynny, treuliodd naw mlynedd gyda Punch Taverns plc - y flwyddyn gyntaf fel cadeirydd, ac yna fel prif weithredwr yn dilyn IPO y busnes.

Cyn hynny, bu'n gwasanaethu fel prif weithredwr Unique Pub Company. Roedd Giles hefyd yn un o sylfaenwyr y Principal Finance Group yn Nomura International plc.

Bu'n Gyfarwyddwr anweithredol gydag Esporta, Ducati SpA, Tragus Holdings, TUI Travel plc a Matthew Clark Wholesale Ltd; mae Giles yn Gadeirydd D&D London Ltd a ZipWorld plc ar hyn o bryd. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol Incopro Ltd. Mae hefyd yn gweithredu fel buddsoddwr ymgynghorol/ angel buddsoddi ar nifer o fusnesau newydd; ac mae'n ymddiriedolwr ffyddlon gyda Rona Sailing Project.

Mae Giles yn meddu ar radd yn y gyfraith o Brifysgol Llundain ac fe wnaeth gymhwysol fel bargyfreithiwr yn 1990. Mae'n aelod o Gyngor Bar Cymru a Lloegr.



**Huw Morgan**  
**Uwch Gyfarwyddwr**  
**Anweithredol**  
**Annibynnol**

(Senior Independent Director)



**Iraj Amiri**  
**Cyfarwyddwr**  
**Anweithredol**

Mae Huw yn fanciwr FCIB cymwys gyda dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector bancio.

Yn gyn Bennaeth Bancio Busnes y DU ar gyfer HSBC, mae e ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol ICICI Bank UK plc, lle mae'n cadeirio'r pwylgorau risg a chredyd.

Mae hefyd yn cadeirio dau fusnes sy'n seiliedig yng Nghaerdydd, sef

ActiveQuote Ltd ac Inspiretec Ltd. Yn flaenorol mae o wedi bod ar Fyrddau Llywodraeth Cymru: Panel Gwasanaethau Ariannol Cymru ac Ardal Fenter Canol Caerdydd.

Mae Huw hefyd yn cefnogi Prifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd; y blaenorol fel aelod o'r Bwrdd Cynghori Datblygu, a'r olaf ar y Bwrdd Cynghori Diwydiannol.

Mae Iraj Amiri yn arloeswr yn y maes llywodraethu a sicrwydd, gan gyfuno gwybodaeth fanwl ac awdurdodol o'r pwnc gyda'i ddefnydd ymarferol.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad mewn archwilio a sicrwydd mae Iraj yn bennaeth ar bwylgor archwilio Banc Datblygu Cymru.

Gydol ei yrfa mae wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau bancio a chwmnïau buddsoddi mawr ym Mhrydain ac Ewrop. Treuliodd dros ddegawd yn bennaeth ar gwmni FTSE 100, Schroders plc. yn ei adran archwilio mewnol.

Roedd Iraj hefyd yn bennaeth ar dîm archwilio mewnol Ymddiriedolaeth Wellcome - gan oruchwylio'r gwaith

o reoli dros £18bn mewn buddsoddiadau. Datblygodd y llinell gwasanaeth risg menter ar gyfer Deloitte, lle'r oedd yn bartner, gan ddatblygu'r uned o'i gyfnodau cynnar i dîm o dros 600 o staff. Mae gan Iraj brofiad helaeth o weithio ar lefel bwrdd ac ymddiriedolwr.

Mae'n un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Cynillion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Mae Iraj yn arbenigwr ac yn awdurdod byd-eang cydnabyddedig ar swyddogaethau archwilio a sicrwydd mewnol, ac yn siaradwr rheolaidd mewn cynadleddau archwilio mewnol. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn Coventry Building Society, yn cadeirio eu Pwylgor Archwilio ac yn aelod o'u Pwylgor Risg.

# Bywgraffiadau Cyfarwyddwyr



**Carol Bell**  
**Cyfarwyddwr**  
**Anweithredol**

Yn ddiwydiannwr ac ariannwr profiadol, dechreuodd Carol ar ei gyrrfa yn y diwydiant olew a nwy cyn symud i fancio lle daliodd uwch swyddi yn Credit Suisse First Boston, JP Morgan a Chase Manhattan Bank.

Mae Carol yn Is-Lwydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac mae hefyd yn aelod o fwrdd cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru ac yn rhwngwladol.

Ers cwblhau ei doethuriaeth yn 2005, mae Carol wedi datblygu ystod o ddiddordebau busnes ac elusennol.



**Roger Jeynes**  
**Cyfarwyddwr**  
**Anweithredol**

Mae Roger Jeynes yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar gyfer Banc Datblygu Cymru ac mae'n aelod o'i bwylgor buddsoddi.

Mae Roger Jeynes yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar Venture Capital Trust (Downing Three VCT plc), mae'n gadeirydd ar gwmni meddalwedd ZOO Digital ccc sydd wedi'i restru ar y Farchnad Fuddsoddi Amgen (a adwaenir fel AIM), mae'n gadeirydd datblygwr meddalwedd cymwysiadau symudol Mapway Limited, ac mae'n un o ymddiriedolwyr yr Elusen Lloyd Reason.

Roedd ei yrfa gynnar yn cynnwys nifer o rolau uwch dechnegol, marchnata a rheoli cyffredinol gydag IBM, EMC a Pyramid Technology yn y DU, yr Eidal ac UDA. Rhwng 1997 a 2006

roedd yn brif weithredwr Interregnum plc, y banc masnachol technoleg. Yn y rôl hon, rheolodd y defnydd o gyfalaf buddsoddi sylweddol mewn ystod eang o gwmnïau cyfnod cynnar, a bu'n gyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau o fwy na dwsin o fuddsoddi gwmnïau. Mae hefyd wedi bod yn gyfarwyddwr ar dair Ymddiriedolaeth Menter Cyfalaif (YMC) arall: yr AIM Distribution Trust plc, Pennine AIM 6 VCT plc, a Downing Distribution VCT plc.

Ac yntau wedi graddio mewn mathemateg ym Mhrifysgol Sheffield ac yn Gymrawd o'r RSA, mae Roger yn ddeilydd tystysgrif mewn rheoli buddsoddiadau o IIMR, ac roedd yn Athro Ymarfer Rheoli ym Mhrifysgol Anglia Ruskin o 2008 i 2017.



**Margaret Llewellyn  
OBE**  
**Cyfarwyddwr  
Anweithredol**

Mae Margaret yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae gyrra 30 mlynedd Margaret wedi cynnwys bod yn berchen ar, a rhedeg cwmni cynwysyddion morgludiant, terfynellau porthladd a fflyd cludiant ffyrdd. Am 9 mlynedd roedd yn Ddirprwy Gadeirydd Porthladd Dover ac yn Gadeirydd Cronfa Bensiwn Bwrdd Harbwr Dover. Mae'n Gyfarwyddwr ar SeaPort Development ac mae wedi dal nifer o swyddi uchel ym meysydd llongau, trafnidiaeth a logisteg. Mae'n un o gymrodyr

y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth ac yn gyn-Wraig Gymreig y Flwyddyn.

Margaret yw Cadeirydd Bwrdd Goruchwyllo Network Rail ar hyn o bryd ac mae'n gyn-Gadeirydd Bwrdd Cynghori Twristiaeth Cymru ac yn Is-Gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru. Yn 2004 derbyniodd OBE am wasanaethau i ddatblygu economaidd yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Margaret yn aelod o Fwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd Y Ddau Gleddau, ac yn Aelod Panel o Adolygiad Williams o'r Rheilffyrdd ar ran Yr Adran Drafnidiaeth.



**David Staziker**  
**Prif Swyddog**  
**Ariannol**

Mae David yn arwain tîm cyllid a gweinyddu mewnol Banc Datblygu Cymru.

Ymunodd â'r cwmni yn 2002 a daliodd nifer o swyddi rheoli yn ochr buddsoddiadau'r busnes cyn cael ei benodi'n Brif Swyddog Ariannol yn 2018.

Cyn y Banc Datblygu, gweithiodd David yn PricewaterhouseCoopers and Gambit Corporate Finance. Mae gan David radd a Doethuriaeth mewn

mathemateg gymhwysol, mae'n gymrawd i sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac mae hefyd yn meddu ar eu cymhwyster cyllid corfforaethol.

Mae David hefyd yn aelod o'n pwylgor buddsoddi ac yn allanol mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Grŵp Pobl ac yn Is-Gadeirydd eu Pwyllgor Trysorlys a Buddsoddi.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran paratoi'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac Erthygl 4 o'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ("IAS") ac maen nhw hefyd wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant gwmni yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Llai. O dan gyfraith cwmnïau, rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ac o elw neu golled y Cwmni am y cyfnod hwnnw.

### Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp, mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisiau cyfrifyddu, mewn modd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn ddealladwy;
- Darparu datgeliadau ychwanegol pan nad yw'r cydymffurfio â'r gofynion penodol mewn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn ddigonol i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad y Grŵp; a
- Gwneud asesiad o allu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol.

### Wrth baratoi datganiadau ariannol y rhiant Gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwys o'n gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan a ddilynwyd Safon Adrodd Ariannol 101 Fframwaith Datgelu Llai, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar y sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y Cwmni yn parhau i weithredu.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran cofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigon i ddangos ac esbonio trafodion y Grŵp a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Grŵp a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefannau'r Grŵp ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

## **Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau hyd eithaf eu gwybodaeth bod:**

- Y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn eu cyfanrwydd yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw'r Cwmni a'r ymgymmeriadau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfuno;
- Yr Adroddiad Strategol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Cwmni a'r ymgymmeriadau sydd weid'u cynnwys yn y cyfuno yn ei gyfanrwydd, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd maen nhw'n eu hwynebu; a
- Bod yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfranddalwyr i asesu sefyllfa a pherfformiad, model busnes a strategaeth y Cwmni.

---

## **Busnes Gweithredol**

Mae gan y Cyfarwyddwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddisgwyliad rhesymol bod gan y Cwmni a'r Grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Felly, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth barato'i'r datganiadau ariannol. Ceir rhagor o fanylion yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu yn y datganiadau ariannol.

## **Datganiad hyfywedd tymor hir**

Mae Banc Datblygu Cymru plc yn eiddo i Weinidogion Cymru a mater i Lywodraeth Cymru sydd mewn grym yn y pen draw yw ei barhad fel endid. Mae'r Bwrdd yn tybio bod y Grŵp wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru ac y bydd yn parhau i wneud hynny ac y bydd ei drefniadau ariannu, sy'n cynrychioli 100% o gyllid ad-daladwy'r Grŵp, yn parhau i fod ar waith. Mae'r Bwrdd yn cynnal ymarfer cynllunio busnes bob blwyddyn i ddiweddarau'r cynllun corfforaethol pum mlynedd ar gyfer y sefydliad.

Cred y Bwrdd ei bod yn bosibl ffurfio disgwyliad rhesymol o'r hyfywedd tymor hir dros y pum mlynedd sy'n cwmpasu'r cynllun corfforaethol gan ystyried y prif risgiau a wynebir gan y Grŵp (fel sydd wedi'u rhestru ar dudalennau 85-93) a'i brif amcanion (fel sydd wedi'u rhestr ar dudalennau 5 a 6).

Mae gan y Cwmni ddogfen fframwaith ar waith gyda Gweinidogion Cymru sy'n nodi gofynion llywodraethu. Yn 2019, mae'r Grŵp wedi codi £197m (2018: £233m) mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Bensiwn Clwyd sydd, ynghyd â'r cronfeydd presennol, yn cwmpasu'r galw disgwyliedig am gyllid dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r Bwrdd yn tybio, yn amodol ar bolisi Llywodraeth Cymru, y bydd y cyfranddaliwr yn parhau i gefnogi'r Grŵp gyda chronfeydd newydd ac arian newydd yn y dyfodol.

---

## **Cyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol**

Gellir gweld manylion am bolisiau, gweithgareddau a nodau'r Grŵp yn y maes hwn yn ein hadroddiad Busnes Cyfrifol yn yr adroddiad strategol ar dudalen 97.

---

## **Rhoddion gwleidyddol**

Ni wnaeth y Grŵp unrhyw roddion gwleidyddol yn ystod 2019 (2018: £dim).

## Rhoddion a lletygarwch

Ni wnaed unrhyw roddion gan y Grŵp. Roedd gwerth cronus y rhoddion a'r lletygarwch a gafodd y staff yn llai na £20,000 yn ystod 2019 (2018 yn llai na £20,000).

## Taliadau diswyddo

The cumulative severance payments made in the year by the Group was less than £300,000 (2018: yn llai na £300,000).

## Colledion Benthyciadau/datgeliad gwaredu ecwiti colledion

Ni wnaeth y Grŵp ddileu unrhyw fenthyciadau ac ni wnaeth y Cyfranddaliwr gymeradwyo hyn. Cyfanswm y golled o ran cael gwared ar gyfranddaliadau ecwiti yn ystod y flwyddyn oedd £2,056,000 (£2018 dim).

## Tâl y Cyfarwyddwyr

Datgelir manylion am dâl y Cyfarwyddwyr yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

## Indemniadau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaethau cymhwysedd ar gyfer indemniad trydydd parti er budd holl Gyfarwyddwyr y Cwmni a'i is-gwmnïau. Roedd y rhain mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn parhau mewn grym ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

## Archwilwyr


Mae'r archwilydd, Deloitte LLP, wedi nodi eu parodrwydd i barhau yn eu swydd a chynigir penderfyniad ynghylch eu hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol sydd ar ddod.

Yn achos pob un o'r personau sy'n gyfarwyddwyr y cwmni ar y dyddiad y cymeradwyir yr adroddiad hwn:

- Cyn belled ag y mae pob un o'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel Cyfarwyddwr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod Archwilydd y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhoddir y cadarnhad hwn a dylid ei ddehongli yn unol â darpariaethau s418 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i lofnodi ar ran y Bwrdd



**Judi Oates**

Ysgrifennydd y Cwmni  
26 Mehefin 2019

# Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae cyfansoddiad Banc Datblygu Cymru plc yn cynnwys ei Erthyglau Cymdeithas a Dogfen Fframwaith rhwng Banc Datblygu Cymru plc a Gweinidogion Cymru.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu corfforaethol cadarn ac mae Banc Datblygu Cymru plc yn cydymffurfio, cyn belled ag y bo'n ymarferol, â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, sy'n ymwnedd â llywodraethu ac adrodd

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gael gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn rhoi arweiniad ar amrywiaeth o faterion i sicrhau arferion Bwrdd effeithiol.

Ar wahân i'r rhai a nodir yn yr adroddiad blynnyddol hwn, nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw wyriad o'r agweddau perthnasol ar y Cod yn y cyfnod ers 1 Ebrill 2018 i'r graddau y mae'n berthnasol i Fanc Datblygu Cymru ccc.

Ar gyfer Banc Datblygu Cymru, mae llywodraethu corfforaethol da yn ymwnedd â sicrhau bod y Grŵp yn cyd-fynd ag amcanion ei gyfranddalwyr ac y bydd gweithredu'r strategaeth a fabwysiedir yn sicrhau bod y Grŵp yn gynaliadwy ac yn gallu ailfuddsoddi'r enillion o'i gronfeydd a fydd, ynghyd â chronfeydd a buddsoddwyr newydd eraill, yn galluogi'r Grŵp i barhau i fuddsoddi yn y tymor hir.

## Swyddogaeth a gyfrifoldeb Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni

Arweinir Banc Datblygu Cymru plc gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am gynaliadwyedd hirdymor y Grŵp ac, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru, am gylch gwaith a strategaeth y Grŵp.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys wyth Cyfarwyddwr, gan gynnwys chwech sy'n gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

Mae gan ein Bwrdd a'n Pwyllgorau gydbwysedd priodol o sgiliau, profiad ac annibyniaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y Cadeirydd yn annibynnol ar ei benodiad a bod yr holl gyfarwyddwyr anweithredol yn annibynnol at ddibenion y Cod. Mae gan Weinidogion Cymru yr hawl i benodi Sylwedydd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel eu cynrychiolydd.

Adolygodd y Bwrdd y rhestr o faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 fel rhan o gytuno ar ddogfen fframwaith newydd gyda Gweinidogion Cymru. Mae'r materion a gedwir ar gyfer y Bwrdd yn cynnwys strategaeth, strwythur y Cwmni a chyfalaf, adroddiadau a rheolaethau ariannol, rheoli risg a rheolaethau mewnol, aelodaeth o'r Bwrdd a phenodiadau eraill, tâl, dirprwyo awdurdod, llywodraethu corfforaethol, penodi ymgynghorwyr proffesiynol, ymgyfreitha ac yswiriant.

Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn craffu ar berfformiad y rheolwyr o ran cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am bennu lefelau priodol o gydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol a staff mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru. Esbonnir hyn ymhellach yn adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 121.

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain y Bwrdd a'i drafodaethau ac am annog trafodaeth a her agored. Mae'r Prif Weithredwr yn arwain y Weithrediaeth yn y gwaith o redeg y busnes o ddydd i ddydd a gweithredu'r strategaeth ac mae'n cael ei gefnogi yn hyn o beth gan yr Uwch Dîm Rheoli.

Fel sefydliad a ariennir gan arian cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Banc gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru: <https://gov.wales/managing-welsh-public-money>.

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus.

Yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ("SID") yw Huw Morgan. Cyfrifoldebau'r SID yw gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd, gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer Cyfarwyddwyr eraill yn ôl yr angen a chyfarfod â Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill i adolygu perfformiad y Cadeirydd.

Cynhaliwyd yr ymarfer i arfarnu perfformiad y Cadeirydd mewn holiadur. Trafodwyd y canlyniadau ymhli y cyfarwyddwyr anweithredol dan arweiniad yr SID a chawsant eu cyfleu i'r Cadeirydd.

## Penodi a diswyddo Cyfarwyddwyr y Cwmni

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn darparu bod angen i benodiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr Cyffredinol adran noddï'r Grŵp, sef Economi, Sgiliau ac Adnoddau naturiol ar hyn o bryd.

Yn ystod y cyfnod, ailbenodwyd Gareth Bullock am dymor o dair blynedd, yn dechrau ym mis Medi 2018. Ailbenodwyd Margaret Llewellyn OBE hefyd am dymor o 3 blynedd gan ddechrau ym mis Medi 2018 ar y ddealltwriaeth mai hwn fydd y tymor olaf.

Yn dilyn proses gaffael lwyddiannus, penodwyd Robert Half yn ymgynghorydd chwilio annibynnol ar gyfer penodi cyfarwyddwr cyllid newydd, i gymryd lle Kevin o'Leary. O 1 Ebrill 2018. Penodwyd David Staziker yn Brif Swyddog Ariannol. Gellir gweld bywgraffiadau llawn holl Aelodau'r Bwrdd yn: <https://developmentbank.wales/about-us/people-and-teams>.

Mae pob penodiad i'r Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau Gweithredol yn seiliedig ar amrywiaeth y cyfraniad, y profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol, waeth beth fo'u rhyw, hil neu unrhyw feini prawf eraill.

## Ethol ac ail-ethol Cyfarwyddwr Blynnyddol

Yn nghyfarfod cyffredinol blynnyddol 2018 etholwyd David Staziker, cafodd Gareth Bullock a Margaret Llewellyn OBE eu hail-ethol yn unol â gofynion yr Erthyglau Cymdeithasu.

## Gwybodaeth am y Bwrdd

Rhoddir diweddarriadau i bob Cyfarwyddwr ar ddatblygiadau llywodraethu corfforaethol, newidiadau deddfwriaethol a rheoliadol, a gwybodaeth ddiwydiannol a thechnegol berthnasol. Mae'r Bwrdd yn derbyn y wybodaeth briodol mewn modd amser i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau ac mae unrhyw wybodaeth bellach ar gael yn rhwydd i bob Cyfarwyddwr. Ers 2018, mae'r Bwrdd wedi derbyn papurau a gwybodaeth y bwrdd yn electronig, er mwyn gwella effeithlonrwydd, cyfrinachedd a chynaliadwyedd.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri Phwyllgor Bwrdd i sicrhau gwneud penderfyniadau cadarn ac effeithiol o fewn strwythur y Grŵp, yn arbennig pwylgorau archwilio a risg, cydnabyddiaeth ac enwebu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cylch gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor.

# Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau uniondeb datganiadau ariannol y Grŵp ac effeithiolrwydd ein rheolaeth risg a'n rheolaethau mewnol. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Cyfranddaliwr mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, rheoli a thrin risg.

## Cyfansoddiad aelodaeth, sgiliau a chyfarfodydd

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Grŵp Banc Datblygu Cymru yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol:

- Iraj Amiri (Cadeirydd)
- Margaret Llewellyn OBE
- Huw Morgan

Mae'r Bwrdd o'r farn mai'r Cadeirydd yw'r arbenigwr ariannol ar y Pwyllgor ac mae ganddo brofiad diweddar a pherthnasol yn y sector gwasanaethau ariannol sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl. Mae'n gyfrifydd â chymwysterau proffesiynol. Mae'r Bwrdd hefyd o'r farn bod aelodau eraill y Pwyllgor yn gymwys mewn materion ariannol a bod ganddynt wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i'r sectorau y mae Grŵp Banc Datblygu Cymru yn gweithredu ynddynt. Gellir gweld bywgraffiadau aelodau'r Pwyllgor ar dudalennau 107 i 110 sy'n rhoi mwy o fanylion am eu sgiliau a'u cefndir.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob chwarter. Fe'i mynychir gan Brif Weithredwr Banc Datblygu Cymru ccc, Y Prif Swyddog Ariannol a Chyfarwyddwr Risg, Cydymffurfiaeth a Chyfreithiol, ynghyd â'r archwiliwr mewnol ac allanol, a sylwedydd o Lywodraeth Cymru. Mae gan yr archwiliwr mewnol ac allanol fynediad uniongyrchol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac maen nhw'n cyfarfod â'r Pwyllgor heb reolwyr yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Diben a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Diben y Pwyllgor yw monitro ac adolygu trefniadau adrodd ariannol y Grŵp, effeithiolrwydd ei reolaethau mewnol a'i fframwaith rheoli risg, y prosesau archwilio mewnol ac allanol pholisiau uniondeb a chwythu'r chwiban y Grŵp. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu fel y pwyt cyswllt os yw'r pryder chwythu'r chwiban yn ymwneud â'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ar ei weithgareddau ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu derbyn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynnyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar ei waith ac yn cadarnhau digonolrwydd y trefniadau archwilio a'r sicrwydd a roddir gan y Prif Swyddog Gweithredol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau allweddol a ddirprwywyd gan y Bwrdd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi'u nodi isod:

<b>Adroddiad/ Datganiad</b>	<b>Purpose</b>
<b>Adrodd ariannol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro dilysrwydd y datganiadau ariannol ac adolygu polisiau cyfrifyddu hanfodol.</li> <li>Asesu a herio, lle bo angen, yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r dyfarniadau gan y rheolwyr wrth barato'i'r datganiadau ariannol.</li> <li>Ystyried a herio'r asesiad busnes gweithredol a baratowyd gan y rheolwyr.</li> <li>Adolygu a monitro unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad allanol.</li> <li>Adolygu'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol ac adroddiadau ariannol eraill. Cynghori'r Bwrdd ynghylch a ydynt, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.</li> </ul>
<b>Archwiliad allanol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwylion' berthynas â'r archwilydd allanol, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol, telerau ymgysylltu ac ystyried effeithiolrwydd, annibyniaeth a gwrthrychedd.</li> <li>Cytuno ar y polisi ar gyfer darparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio. Herio'r cynllun archwilio allanol a chytuno arno.</li> <li>Gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ailbenodi a chael gwared ar yr archwilydd allanol.</li> <li>Adolygu canfyddiadau'r archwiliad ac ystyried ymatebion y rheolwyr i unrhyw ganfyddiad neu argymhelliad.</li> </ul>
<b>Rheolaethau mewnol a risg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwylion trefniadau'r rheolwyr ar gyfer sicrhau digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol, adrodd am reolaeth ariannol a rheoli risg a risg y rheolwyr o fynd i'r afael â gwendidau rheoli.</li> <li>Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau rheolaeth, rheoli risg a datganiadau sicrwydd mewnol eraill yn yr adroddiad blynnyddol.</li> </ul>
<b>Uniondeb gan gynnwys chwytu'r chwiban</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r trefniadau chwythu'r chwiban a derbyn adroddiadau ar achosion o chwythu'r chwiban.</li> <li>Adolygu'r gofrestr a'r trefniadau Rhoddion a Lletygarwch.</li> <li>Adolygu treuliau gweithredol</li> </ul>
<b>Archwilio mewnol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyo dewis a phenodi archwiliwyr mewnol.</li> <li>Cymeradwyo'r cynllun gwaith blynnyddol a derbyn ac ystyried adroddiadau ar feisydd gwaith unigol.</li> <li>Monitro ymatebion y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion.</li> <li>Monitro effeithiolrwydd a gwrthrychedd y swyddogaeth archwilio mewnol.</li> </ul>
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae sylwedydd o Lywodraeth Cymru yn mynchu pob cyfarfod ac mae'n cael gwybodaeth lawn am bob agwedd ar waith y Pwyllgor.</li> <li>Cyflwynir adroddiad blynnyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru sy'n nodi manylion gwaith y Pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd y trefniadau archwilio a hefyd ar y sicrwydd a ddarperir gan y Prif Weithredwyr a'r tîm uwch reoli o ran trefniadau llywodraethu a rheoli.</li> </ul>

## Materion adrodd datganiadau ariannol sylweddol

Wrth ymgymryd â'i rôl o fonitro datganiadau ariannol y Grŵp, adolygodd y Pwyllgor a oedd polisiau cyfrifyddu addas wedi'u mabwysiadu ac a oedd y rheolwyr wedi gwneud amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu priodol. Gyda chymorth yr archwilydd allanol, ystyriodd y Pwyllgor nifer o faterion arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, sydd wedi'u nodi isod. Mae'r rhan fwyaf o'r materion hyn yn digwydd dro ar ôl tro ac felly'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn barhaus.

## Prisiad portffolio benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r tybiaethau allweddol a gymhwyswyd gan y rheolwyr wrth gyfrifo gwerth teg portffolio benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru ac mae'n fodlon ei fod yn briodol.

## Gweithredu IFRS 9

Gweithredodd y Grŵp IFRS 9 ar 1 Ebrill 2018. Roedd hyn yn gofyn am newidiadau i'w bolisiau cyfrifyddu ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol ac ar gyfer cydnabod amhariad.

Mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r penderfyniadau allweddol o ran dosbarthu a mesur, gan bennu cynnydd sylweddol mewn risg credyd a defnyddio senarios economaidd amgen i gyfrifo colledion disgwyliedig. Mae wedi adolygu'r trefniadau goruchwyllo a fabwysiadwyd gan y rheolwyr ac wedi adolygu casgliadau'r archwilydd allanol a'r archwiliad mewnol mewn perthynas â gweithredu IFRS 9. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried y datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol diwedd blwyddyn mewn perthynas â mabwysiadu IFRS 9. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y safon adrodd newydd wedi'i gweithredu'n briodol.

## Darpariaethau ar gyfer amhariad yn y llyfr benthyciadau

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr, gan gynnwys canlyniadau colledion benthyciadau ystadegol i gefnogi'r ddarpariaeth o ran amhariad mewn gwerth ac roedd yn fodlon bod y dulliau amcangyfrif yn briodol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r ddarpariaeth o ran lleihad mewn gwerth a gydnabuwyd yn y datganiadau ariannol a'r sail ar gyfer cyfrifo colledion credyd disgwyliedig o dan IFRS 9. Roedd hyn yn cynnwys y dull o benderfynu ar gynnydd sylweddol mewn risg credyd, a'r defnydd o ddyfarniadau rheoli yn ymwneud â darpariaethau penodol. Ystyriwyd sensitifrywydd y broses o gyfrifo'r ddarpariaeth i amrywiol dybiaethau, gan gynnwys effaith senarios economaidd blaengar. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â digonolrwydd y darpariaethau a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol, ar sail ddarbodus. Nodir fod y datgeliad sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer amhariad mewn gwerth yn nodyn 15 o'r datganiadau ariannol.

## Prisio buddsoddiadau ecwiti

Mae gweithredu IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i bob buddsoddiad ecwiti gael ei ddal ar werth teg yn unol ag IFRS 13. Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r ffordd yr oedd y rheolwyr wedi defnyddio'r canllawiau ecwiti preifat a chyfalaf menter (IPEV) ac roedd yn fodlon eu bod wedi'u rhoi ar waith yn briodol. Nodir y datgeliadau sy'n ymwneud â'r addasiad gwerth teg yn Nodiadau 13 a 20 y datganiadau ariannol.

## Atgyfnerthu partneriaethau cyfyngedig

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r penderfyniadau allweddol a wnaed wrth benderfynu ar yr angen i gydgrynhau o dan IFRS 10 y bartneriaeth gyfyngedig amrywiol y mae'r Grŵp yn ei rheoli naill ai drwy'r busnes rheoli'r gronfa a reoleiddir ganddo, neu y mae wedi buddsoddi yn ddo. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y driniaeth i gyfuno neu beidio yn briodol ar gyfer pob Partneriaeth Gyfyngedig.

## Buddsoddi yng Nghronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ("WLSIF")

Nododd y Pwyllgor fod allanfa faterol o fuddsoddiad yn Simbec Orion wedi'i chyflawni yn y flwyddyn ar elw luosog 1.9 gyda'r potensial i godi i 2.2 lluosog dros y ddwy flynedd nesaf. O'r wyth cwmni portffolio sy'n weddill, mae tri wedi'u rhestru ar AIM ac felly defnyddiwyd eu pris cyfranddaliadau ar 31 Mawrth 2019 fel gwerth teg. Cyfrifwyd gwerth teg y pum cwmni portffolio sy'n weddill, a phob un ohonynt ar ffurf cyfranddaliadau dewisol nas rhestrwyd, naill ai gan gyfeirio at asedion net y cwmni yn ôl ei wybodaeth ariannol ddiweddaraf a oedd ar gael i'r cyhoedd neu gan arbenigwr prisio annibynnol, a benodwyd gan reolwr y gronfa, a benderfynodd ar y prisiad ar 31 Rhagfyr 2018 ac a gafodd ei gario ymlaen wedyn i 31 Mawrth 2019 gan reolwr y gronfa. Cadarnhaodd adroddiad yr archwiliwyr annibynnol i bartneriaid Partneriaeth Gyfyngedig Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru eu bod wedi archwilio'r datganiadau ariannol a daethant i'r casgliad bod y datganiadau ariannol, yn eu barn nhw, yn rhoi darlun cywir a theg o'r datganiad o faterion y bartneriaeth ar 31 Mawrth 2019 ac o'i golledion a'i lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Adolygodd ac ystyriodd y Pwyllgor y tybiaethau gwerth teg allweddol a daeth i'r casgliad bod gwerth teg datganedig y buddsoddiad yn y gronfa a'r datgeliadau cysylltiedig yn briodol.

## Cydnabod refeniw

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y gydnabyddiaeth o refeniw mewn perthynas â gwireddu ecwiti yn briodol a chaiff ei hategu gan y ddogfennaeth angenrheidiol.

## Rheoleidd-dra

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod gwariant y Grŵp yn cydymffurfio â gofynion y trefniant rheoli fel y nodir gan Weinidogion Cymru.

## Busnes gweithredol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio'r tybiaethau a nodwyd mewn papur a baratowyd gan y rheolwyr ar ofynion cyfalaf gweithredol a'r arian sydd ar gael i'w fuddsoddi yn y 18 mis a ddaw i ben ar 30 Medi 2020. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod digon o gyllid buddsoddi ar gael i ateb y galw am fuddsoddiadau a ragwelwyd hyd 30 Medi 2020 ac nad oes unrhyw broblemau perfformiad gydag unrhyw un o gontactau rheoli cronefeydd y Grŵp. Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon y byddai digon o warged yn cael ei gynhyrchu gan fusnes y gwasanaethau a chyfalaf gweithio cysylltiedig i dalu'r holl dreuliau gweithredu hyd at 30 Medi 2020.

Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon ei bod yn briodol paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

## Rheolau FCA

Mae tri is-gwmni yng Ngrŵp Banc Datblygu Cymru sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr awdurdod ymddygiad ariannol. FW Capital Limited, DBW Investments (10) Limited a Cymorth i Brynu – Cymru Cyf yw'r rhain.

Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd gan y rheolwyr fod rheolaethau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a bod y staff yn derbyn yr hyfforddiant priodol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y rheolaethau priodol ar waith a bod hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei ddarparu.

## Rheolau cyllid Ewropeaidd

Ariennir y gronfa fwyaf a weithredir gan y Grŵp yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae ganddi feini prawf penodol ar gyfer cymhwysedd buddsoddiadau. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan y rheolwyr bod yr holl fuddsoddiadau a wnaed yn bodloni'r meinu prawf. Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod rheolaethau priodol ar waith i sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau cymwys.

## Adolygiad o'r adroddiad blynnyddol a datganiadau ariannol

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 10 Mehefin 2019 i gynnal adolygiad manwl o ddrafft o'r adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, cyn i'r drafft terfynol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 26 Mehefin 2019. Yn dilyn y trafodaethau hyn, cynghorodd y Pwyllgor y Bwrdd fod yr adroddiad blynnyddol a'r datganiadau ariannol, gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac argymhellion eu cymeradwyo i'r Bwrdd.

## Performiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Adolygir performiad y Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol drwy gyfrwng holiadur a anfonir at yr holl Gyfarwyddwr ac uwch reolwyr. Adolygir y canlyniadau ac os oes angen, cytunir ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi bod yn effeithiol yn ystod y flwyddyn.

## Archwiliad Allanol

Mae'r archwilydd allanol a'r Grŵp ill dau yn cymryd camau diogelu i sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwiliad allanol. Mae gan y Grŵp bolisi i sicrhau bod y gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio a ddarperir gan yr archwilwyr allanol yn briodol. Mae'r polisi yn nodi natur y gwaith y gall yr archwiliwr allanol ei wneud gydag unrhyw aseiniadau sydd â ffioedd uwchlwm terfyn diffiniedig yn ei gwneud hi'n angenrheidiol cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Nodir cyfanswm y swm a dalwyd i'r archwilydd allanol yn 2019 yn Nodyn 6 o'r datganiadau ariannol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn heb fod y rheolwyr yn bresennol, gyda'r archwilydd allanol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal asesiad ffurfiol o berfformiad yr archwilwyr allanol bob blwyddyn. Yn 2019 ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol ac ystyriwyd bod eu perfformiad yn fodhaol.

Mae gan y Grŵp bolisi o dderio'r archwiliad allanol bob pum mlynedd. Cynhaliwyd ymarfer caffael manwl yn ystod blwyddyn ariannol 2016, a chafodd yr archwilwyr presennol, Deloitte, eu hailbenodi.

## Archwiliad mewnol


Yn ystod 2018, yn dilyn ymarfer caffael llwyddiannus, penodwyd PricewaterhouseCoopers yn archwilwyr mewnol annibynnol i gyflawni ein swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'r penodiad tan ddiweddfed Mehefin 2022, gydag opsiwn i dorri ar y drydedd pen-blwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r cynllun archwilio mewnol ac yn sicrhau bod yr archwilwyr yn cael mynediad priodol at wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu gweithgareddau archwilio yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol. Adolygir yr holl ganfyddiadau ar unwaith a chaiff ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a'r argymhellion eu monitro'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod yn breifat o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r archwilwyr mewnol heb reolwyr yn bresennol i drafod eu cylch gwaith ac unrhyw faterion sy'n codi o'r adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd.

Yn eu hadroddiad blynnyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 10 Mehefin 2019, barn ein Harchwilwyr Mewnol oedd 'Boddhaol ar y cyfan gyda rhai gwelliannau angen eu gwneud' o ran ein trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, gan ddweud:

"Rydym yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i wneud er mwyn caniatáu i farn gael ei rhoi am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli a thrin risg. Wrth roi'r farn hon, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt. Y mwyaf y gall y gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn y system rheolaeth fewnol.

Rydym wedi cwblhau ein rhaglen waith y cytunwyd arni gyda chi a chredwn fod prosesau llywodraethu, rheoli a thrin risg digonol ac effeithiol i alluogi'r risgau cysylltiedig i gael eu rheoli ac i amcanion gael eu cyflawni."

Cymeradwywyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



Iraj Amiri

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

# Adroddiad Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae ein Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn mabwysiadu ymagwedd deg a chyfrifol tuag at wobrwyd ein gweithwyr cyflogedig, gan sicrhau bod y cysylltiad rhwng cyflog a pherfformiad yn annog yr ymddygiadau cywir, tra'n ein galluogi i ddenu a chadw'r bobl gywir.

## Aelodaeth a Phresenoldeb Pwyllgor

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Grŵp yn cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol:

**Cadeirydd y Pwyllgor:** Margaret Llewellyn OBE

**Aelodaeth:** Huw Morgan

Penodir y Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd a rhaid iddo gynnwys o leiaf ddau Gyfarwyddwr anweithredol.

Mae ein Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheolwr Adnoddau Dynol fel arfer yn bresennol ac eithrio pan fydd eu tâl eu hunain yn cael ei drafod.

Darperir adborth i'r Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## Diben a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Mae cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Llunio a chymeradwyo'r strategaeth a'r polisi ar gyfer talu Cyfarwyddwyr y Grŵp, y Tîm Rheoli Gweithredol a'r staff yn unol â'r Ddogfen Fframwaith.
- Sicrhau bod aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cael cymhellion priodol i annog perfformiad gwell a'u gwobrwyd am gyfraniadau unigol i lwyddiant y sefydliad.
- Cymeradwyo strwythur y cynllun cymhelliant blynnyddol ac unrhyw daliadau o dan y cynllun hwn.
- Goruchwyliau newidiadau mawr yn strwythurau buddiannau gweithwyr.

